

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015

Amser:
10.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llinos Madeley

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Seneddlechydd@Cynulliad.Cymru

Agenda

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (10.00)

2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 17 (10.00 – 11.15) (Tudalennau 1 – 71)

Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

David Pritchard, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu

Kate Johnson, Cyfreithiwr

Mari Williams, Cyfreithiwr

[Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

3 Papurau i'w nodi (11.15)

Cofnodion cyfarfod 13 Mai 2015 (Tudalennau 72 – 75)

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol (Tudalennau 76 – 83)

Gwybodaeth ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Gwybodaeth ychwanegol gan Age Cymru

Gwybodaeth ychwanegol gan Cynghrair Henoed Cymru

Gwybodaeth ychwanegol gan Cymdeithas Brydeinig Mabwysiadu a Maethu

Ymchwiliad i'r gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Tudalennau 84 – 85)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (11.15)

5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth (11.15 – 11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref: LF/MD/0392/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Mai 2015

Annwyl David,

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar 25 Mawrth 2015.

Mae'n bleser gennyf ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y materion canlynol a godwyd yn ystod y sesiwn, sef:

- a.) y costau sy'n gysylltiedig â chofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion;
- b.) gwybodaeth am ffurf bosibl Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad;
- c.) syniad o'r amserlenni disgwyltiedig ar gyfer cyhoeddi rheoliadau drafft o dan adran 60(6) a 60(7) sy'n ymwneud â gallu Gweinidogion o dan adran 60 i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth.

Cofrestru Gweithwyr Gofal yn y Cartref

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys pob rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Cyflwynir dau opsiwn ar gyfer ymestyn y cynllun cofrestru, sef:

- i. ymestyn y cynllun cofrestru gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol;
- ii. ymestyn y cynllun cofrestru gan ddefnyddio strwythur ffioedd uwch.

Mae'r dadansoddiad atodol a nodir isod yn trafod costau a manteision cymhwysu'r ddau opsiwn hyn at ddau grŵp o'r gweithlu, sef: gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion.

Amcangyfrifir bod 47,163 o weithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion yng Nghymru (gweler tabl un isod am ddadansoddiad). Ar hyn o bryd mae cofrestru gweithwyr gofal a chymorth yn costio £273.31 fesul unigolyn cofrestredig i Gyngor Gofal Cymru (gweler tabl dau isod). Y ffi bresennol ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion, pan fyddant yn dewis cofrestru o'u gwirfodd, yw £10. Awgrymodd Cyngor Gofal Cymru mewn trafodaethau â swyddogion a gynhaliwyd wrth lunio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, oherwydd arbedion effeithlonrwydd, y byddai ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys pob rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol a chymorth yn costio £85.24 fesul unigolyn cofrestredig (gweler tabl tri isod). At hynny, awgrymodd Cyngor Gofal Cymru y dylid cynyddu'r ffioedd fel y gellid ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol heb gost ychwanegol i bwrs y wlad. Cynigiodd y Cyngor y dylid codi'r ffi ar gyfer gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal cymdeithasol i oedolion.

Tabl un: nifer y gweithwyr gofal yn ôl sector a rôl

Sector	Rôl	Nifer
Awdurdod lleol	Gweithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau oedolion)	5,109
Awdurdod lleol	Uwch weithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau oedolion)	359
Y sector annibynnol	Gweithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau oedolion)	11,831
Y sector annibynnol	Uwch weithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau oedolion)	831
Awdurdod lleol	Gweithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau plant)	411
Awdurdod lleol	Uwch weithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau plant)	11
Y sector annibynnol	Gweithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau plant)	955
Y sector annibynnol	Uwch weithiwr gofal yn y cartref (gwasanaethau plant)	30
Awdurdod lleol	Gweithwyr gofal (cartrefi preswyl i oedolion)	2,855
Y sector annibynnol	Gweithwyr gofal (cartrefi preswyl i oedolion)	24,771
	Cyfanswm	47,163

Tabl dau: cost bresennol cofrestru gorfodol

Blwyddyn	Cost Amcangyfrifedig	Nifer yr unigolion cofrestredig	Cost fesul unigolyn cofrestredig	Incwm o ffioedd (cyfraddau presennol)	Cymorth grant sydd ei angen
2012-13	3,170,175	11,599	273.31	264,350	2,905,825

i. Ymestyn y cynllun cofrestru i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol o £10

Tabl tri: cost ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i weithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gan ddefnyddio'r strwythur ffioedd presennol o £10

Blwyddyn	Nifer yr unigolion cofrestredig	Cost fesul unigolyn cofrestredig	Cost Amcangyfrifedig	Incwm amcangyfrifedig o ffioedd (y ffi bresennol o £10)	Amcangyfrif o'r cymorth grant sydd ei angen	Y cymorth grant presennol (2012-13)	Cost ychwanegol i bwrs y wlad (ffioedd presennol)
2017-18	47,163	85.24	4,020,174	471,630	3,548,544	2,905,825	642,719
2017-18	47,163	130.00	6,131,190	471,630	5,659,560	2,905,825	2,753,735
2017-18	47,163	273.31	12,890,120	471,630	12,418,490	2,905,825	9,512,665

Os sicrhair arbedion maint a bod y gost fesul unigolyn cofrestredig, o ganlyniad, yn cyfateb i £85.24, byddai ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion, yn seiliedig ar y ffi bresennol o £10, yn golygu cost ychwanegol o £642,719 y flwyddyn i bwrs y wlad (gweler tabl tri uchod).

Os na sicrhair unrhyw arbedion maint a bod y gost fesul unigolyn cofrestredig yn parhau i fod yn £273.31, byddai ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion, yn seiliedig ar y ffi bresennol o £10, yn golygu cost ychwanegol o £9,512,665 y flwyddyn i bwrs y wlad.

Mae'n debygol y sicrhair rhai arbedion maint drwy ymestyn y cynllun cofrestru. Felly, at ddibenion enghreifftiol, tybiwyd mai £130 yw'r gost fesul unigolyn cofrestredig. Gan ddefnyddio'r gost hon a'r ffi bresennol o £10, byddai hyn yn golygu cost ychwanegol o £2,753,735 i bwrs y wlad.

ii. Ymestyn y cynllun cofrestru i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gan ddefnyddio strwythur ffioedd uwch

Os sicrheir arbedion maint a bod y gost fesul unigolyn cofrestredig, o ganlyniad, yn cyfateb i £85.24, byddai ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gan ddefnyddio'r ffi uwch o £25 yn arbed £64,726 y flwyddyn i bwrs y wlad (gweler tabl pedwar isod).

Os na sicrheir unrhyw arbedion maint a bod y gost fesul unigolyn cofrestredig yn parhau i fod yn £273.31, byddai ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion, gan ddefnyddio'r ffi uwch o £25, yn golygu cost ychwanegol o £8,805,220 i bwrs y wlad.

Mae'n debygol y sicrheir rhai arbedion maint drwy ymestyn y cynllun cofrestru. At ddibenion enghreifftiol, tybiwyd mai £130 yw'r gost fesul unigolyn cofrestredig. Gan ddefnyddio'r gost hon a'r ffi uwch o £25, byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol o £2,046,290 i bwrs y wlad.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a ddarparwyd gan y Cyngor yn rhagdybio y sicrheir arbedion maint sylweddol. Hefyd, ni chyfrifir effeithiau eraill y newidiadau hyn megis yr effaith ar y cyflenwad o'r gweithlu a chostau i gyflogwyr, er enghraifft drwy alluogi eu staff i ennill y cymwysterau gofynnol.

Tabl pedwar: ymestyn y cynllun cofrestru gorfodol i gynnwys gweithwyr gofal yn y cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gan ddefnyddio ffioedd uwch, sef £25

Blwyddyn	Nifer yr unigolion cofrestredig	Cost fesul unigolyn cofrestredig	Cost Amcangyfrifedig	Incwm amcangyfrifedig o ffioedd (ffi uwch, sef £25)	Amcangyfrif o'r cymorth grant sydd ei angen	Y cymorth grant presennol (2012-13)	Y gost ychwanegol i bwrs y wlad (ffioedd uwch)
2017-18	47,163	85.24	4,020,174	1,179,075	2,841,099	2,905,825	-64,726
2017-18	47,163	130.00	6,131,190	1,179,075	4,952,115	2,905,825	2,046,290
2017-18	47,163	273.31	12,890,120	1,179,075	11,711,045	2,905,825	8,805,220

Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Fel yr addewais, rwyf wedi cynnwys dolen i'r papur cyfarwyddyd a luniwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes ar ran yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA), sef "Developing a Market Position Statement: A Commissioner's Toolkit," sy'n dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes wedi ystyried mater adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn ofalus. Mae copi o'r ddogfen hon wedi'i gynnwys er hwylustod yn **Atodiad A** a cheir copïau pellach yn: <http://ipc.brookes.ac.uk/publications/index.php?absid=796>. Fel y gwelwch, mae'r pecyn cymorth yn cydnabod nad oes unrhyw ofyniad statudol ar hyn o bryd i awdurdodau lleol Iunio Datganiadau ar Sefyllfa'r Farchnad (MPS), er bod llawer o awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi pa gwestiynau y dylai Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad geisio mynd i'r afael â hwy yn ogystal â nodi ar ba ffurf y dylid ei gyflwyno. Mae'n ailddatgan ein sylwadau ynghylch pam mae datganiadau o'r fath yn fuddiol i awdurdodau lleol a'u rhanddeiliaid (ar dudalen 11) gan nodi'r canlynol:

"Putting together an effective MPS is not easy. It requires good information, succinct analysis and a willingness to engage with many different stakeholders in a way which promotes a genuine and meaningful dialogue. It can be worth the effort, however, in helping local authorities and their partners secure the kind of services that will be needed to meet the needs of its local population into the future."

Byddwn yn pwysleisio unwaith eto mai dim ond at ddibenion enghreifftiol y darperir hwn. Mae'n debygol y byddai unrhyw ddatganiad o'r fath, ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori, yn wahanol i'r model hwn. Fodd bynnag, gobeithio y bydd yn helpu i roi rhyw syniad o adroddiad o'r fath.

Mae dau reswm dros ddeddfu yn y maes hwn, sef: yn gyntaf, drwy ei gwneud yn ddyletswydd statudol byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn gwella cysondeb ledled Cymru; ac yn ail, bydd yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol y dulliau i hwyluso'r broses o ddod â phartneriaid o amgylch y bwrdd er mwyn datblygu dull mwy cydweithredol o nodi a diwallu anghenion penodol eu cymunedau. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i dynnu sylw at arfer gwael na methiannau mewn llywodraeth leol, ond yn hytrach byddwn yn ei defnyddio i sicrhau y gall comisiynwyr nodi'r darparwyr gwasanaeth angenrheidiol a chael gafaél arnynt yn hawdd er mwyn llenwi bylchau yn y farchnad yn eu cymunedau a helpu'r sector i nodi meysydd sy'n cynnig mwy o gyfleoedd.

Amserlenni ar gyfer cyhoeddi rheoliadau drafft o dan adran 60(6) a 60(7).

Fy mwriad fyddai ymgynghori'n gynnar ar y materion hyn a chyflwyno rheoliadau drafft yn 2016.

Diwygiadau i'r Trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2015

Ar ôl cael y trawsgrifiad drafft o'r cyfarfod, nododd fy swyddogion rai mân ddiwygiadau ffeithiol yr oedd angen eu gwneud i'r trawsgrifiad ac roeddwn yn tybio y gallai fod yn ddefnyddiol atgoffa'r Pwyllgor o'r diwygiadau hyn a nodi'n gryno y rhesymeg drostynt:

Ym mharagraffau 11 a 14, cyfeiriais at y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Enw ffurfiol y ddeddfwriaeth yr oeddwn yn cyfeirio ati yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;

Ym mharagraff 38 roedd rhywfaint o ddryswch yngl n â'r sefydliad sy'n rheoleiddio Therapyddion Galwedigaethol. Er eglurder, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yw'r sefydliad hwn, nid Coleg y Therapyddion Galwedigaeth (nad yw'n Goleg Brenhinol fel y nodwyd ychwaith);

Ym mharagraff 39 awgrymwyd y dylid enwi'r grwpiau o weithwyr sydd i'w rheoleiddio ar wyneb y Bil. Mewn gwirionedd, ar hyn o bryd mae'r Bil ond yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestr ar gyfer Gwaith Cymdeithasol gael ei chynnal a mater ar gyfer rheoliadau yw'r gofyniad i gynnal cofrestr o grwpiau eraill.

Ym mharagraff 57 nodwyd nad yw'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal wedi cyflwyno math o gofrestriad negyddol. Er mwyn bod yn gwbl glir, nodir bod cynllun sy'n ymwneud â myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar waith ar hyn o bryd;

Ym mharagraff 131, nodais y byddai gan yr Arolygiaeth y p er i ofyn am wybodaeth yn dilyn ymarfer diwydrwydd dyladwy. Mewn gwirionedd, nid yw'r pwerau i ofyn am wybodaeth yn dibynnu ar ymarfer o'r fath a chaent eu defnyddio i hwyluso ymarfer diwydrwydd dyladwy o'r fath.

Gwybodaeth arall y gofynnwyd amdani

Gofynnodd eich llythyr hefyd am fy sylwadau ar nifer o feysydd yr oedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn y byddent o gymorth iddynt wrth ystyried y Bil.

Comisiynu gwasanaethau

- 1. Y darpariaethau yn adran 26 o'r Bil ac adran 9 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac a yw'n fwriad gennyh i ddarparu safon ansawdd penodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 26 o'r Bil;*

Deallaf resymeg y Pwyllgor dros yr awgrym hwn - bydd yr aelodau yn cofio fy sylwadau fy hun ar y maes hwn yn ein sesiwn. Fodd bynnag, nid wyf yn gwbl argyhoeddedig eto y byddai safonau ychwanegol o dan adran 26 o'r Bil hwn yn ddefnyddiol. Adran 26 yw'r p er i wneud rheoliadau er mwyn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir. Mae comisiynu yn un o swyddogaethau awdurdodau lleol a hwy a ddylai gael eu dwyn i gyfrif am y ffordd y caiff ei gyflawni. Ni fydd y rheoliadau o dan adran 26 yn gymwys i awdurdodau lleol.

Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd a byddant yn parhau i gael eu rheoleiddio mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Mae adran 9 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi codau er mwyn nodi sut y gall awdurdodau lleol gyflawni canlyniadau lles ac mae adran 145 yn rhoi p er i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Credaf y byddai'n llawer mwy defnyddiol canolbwyntio ein deddfwriaeth yn y maes hwn ar y codau sy'n cael eu sefydlu o

dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y rhain yn sefydlu'r gofyniad i awdurdodau lleol sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir i ddinesydd yn ei gartref yn diwallu ei anghenion. Rôl yr Arolygiaeth fydd sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni'r gofynion hyn.

- 2. Y darpariaethau yn adran 26(4) o'r Bil, sy'n cyfeirio at godau dan adran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac a ddylid bod cyfeiriadau tebyg at adrannau 34(3) a (4) o'r Ddeddf (sy'n dweud bod rhaid i awdurdod lleol fod yn fodlon bod ymweliadau gofal i gartref unigolyn yn ddigon hir, a bod yn rhaid i ganllawiau i'r perwyl hwn gael eu cynnwys yn y cod ymarfer dan adran 145) er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cyflawni'r darpariaethau hyn?*

Am resymau tebyg, nid wyf wedi fy argyhoeddi eto mai 'clo dwbl' ar ddarpariaeth gofal yn y cartref fyddai'r ffordd orau o osgoi ymweliadau amhriodol o fyr. Byddai'r clo dwbl hwn, drwy reoliadau, yn gosod rhwymedigaeth ar ddarparwyr sy'n debyg i'r un a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Ddeddf 2014 er mwyn sicrhau bod digon o amser i ddarparu gofal o safon yn ystod ymweliadau cartref er mwyn diwallu anghenion pobl. Credaf y byddai hyn yn cymhlethu'r sefyllfa o ran atebolrwydd yn ein system. Awdurdodau lleol sy'n gorfod sicrhau bod ymweliadau yn ddigon hir a dylai hyn gael ei adlewyrchu drwy eu gwaith comisiynu. Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i fodloni ei hun bod ei ofynion cytundebol yn cael eu bodloni ac nid wyf yn argyhoeddedig y dylai'r Arolygiaeth weithredu, i bob diben, fel eu rheolwyr contract yn yr achos hwn.

Sut bynnag, bydd y safonau a ddatblygir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 26 yn sicrhau bod yn rhaid darparu gofal gan gyfeirio at ganlyniadau lles defnyddiwr gwasanaeth. Felly, bydd y system gyffredinol a sefydlir o dan reoliadau yn sicrhau bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn arolygu darparwr mewn perthynas ag ansawdd y gofal a ddarperir heb orfod gwneud darpariaeth benodol ar gyfer hyn.

Newidiadau i brosesau darparu gwasanaethau/methiant darparwyr

- 3. A fydd y Bil yn rhoi digon o amddiffyniad i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol os neu pan fydd darparwr eu gwasanaethau yn penderfynu newid neu roi'r gorau i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu?*

Diogelir defnyddwyr gwasanaethau pan fydd darparwr yn methu drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 189 o'r Ddeddf honno yn nodi, yn ogystal â dyletswyddau tebyg sydd eisoes yn bodoli ar gyfer plant, bod yn rhaid i awdurdod lleol, am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol yn ei farn ef (ac i'r graddau nad yw eisoes yn ofynnol iddo wneud hynny), ddiwallu'r canlynol;

- a.) anghenion oedolyn o ran gofal a chymorth
- b.) anghenion gofalwr perthnasol o ran cymorth.

Mae'r Bil hwn yn cefnogi'r amddiffyniad hwnnw drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru gynnal arolygiad i nodi sut mae unrhyw awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys y ddyletswydd hon.

Os cynigir newid gwasanaeth a ddarperir, yna bydd yn rhaid i'r darparwr newydd arfaethedig wneud cais i gofrestru yn y ffordd arferol. Bydd angen i'r rheoleiddiwr gwasanaethau fodloni ei hun bod y darparwr newydd yn gymwys ac yn addas i ddarparu'r

gwasanaeth y cynigir y dylai ei gymryd drosodd. Ni fydd darparwyr newydd gwasanaethau a reoleiddir sy'n cymryd gwasanaeth sy'n bodoli eisoes drosodd yn gallu osgoi'r gofynion i gofrestru a nodir ar wyneb y Bil.

- 4. A yw'r Bil yn darparu digon o bwerau ymyrraeth i'r rheoleiddiwr pan fydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn methu â bodloni'r safonau gofynnol, gan gynnwys eich barn ar ddefnyddio rheolwyr interim neu hysbysiadau gwella?*

Credaf fod y Bil yn atgyfnerthu pwerau'r rheoleiddiwr o ran ei opsiynau gorfodi. Mae adrannau 14 a 15 yn rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr gyflwyno Hysbysiadau Gwella statudol a'r gallu, i bob diben, i ddarparu terfyn amser ar gyfer gwneud gwelliannau. O ran defnyddio rheolwyr interim, nid wyf o'r farn mai rôl yr Arolygiaeth yw cymryd gwasanaethau sy'n methu drosodd. Mater i'r awdurdod lleol yw ymateb i sefyllfa o'r fath ac er bod gan yr Arolygiaeth rôl i'w chwarae o ran rhoi gwybodaeth a chyngor, yn y pen draw ni ddylai ddod yn ddarparwr gwasanaethau uniongyrchol yn absenoldeb unrhyw ddarparwr arall.

- 5. I ba raddau y mae'r Bil yn galluogi'r rheoleiddiwr - wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n methu â bodloni'r safonau gofynnol - i ystyried yr effaith ar bobl sy'n derbyn y gwasanaeth hwnnw a'r farchnad leol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw?*

Gweinidogion Cymru yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau a byddant yn parhau i gyflawni'r rôl honno ac mae'n ofynnol iddynt wneud penderfyniadau sy'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

O dan y system bresennol nid yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn ystyried effaith camau gorfodi ar ddefnyddwyr gwasanaethau a byddwn yn disgwyl i hynny barhau o dan y trefniadau a nodir yn y Bil hwn. Fodd bynnag, o dan adran 4 o'r Bil amcan cyffredinol y rheoleiddiwr gwasanaethau yw 'diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig' ac oherwydd hynny byddwn yn disgwyl, ar adegau, mai camau gorfodi yw'r ffordd orau bosibl o gyflawni'r amcan hwnnw.

Ymgysylltu â'r cyhoedd;

- 6. A yw'r darpariaethau yn adrannau 39, 40 a 70 sy'n ymwneud ag ymgysylltiad cyhoeddus â rheoleiddio ac arolygu yn ddigonol i gyflawni eich bwriadau polisi?*

Credaf yn gryf fod y Bil hwn yn nodi'n glir ein bod yn disgwyl i'n rheoleiddwyr weithio'n agos gyda dinasyddion wrth wneud eu gwaith. Fodd bynnag, credaf na fyddai'n briodol nac yn ddefnyddiol bod yn or-ragnodol o ran sut y gwneir hyn ar wyneb y Bil, am fod perygl y byddai hyn yn atal rheoleiddwyr rhag cynnwys dinasyddion yn eu gwaith yn hytrach na'u hannog i'w cynnwys yn fwy.

Mae ein rheoleiddwyr gwasanaethau a gweithluoedd, sef AGGCC a Chyngor Gofal Cymru, eisoes yn cymryd camau i gynnwys dinasyddion yn eu gwaith, mewn sawl ffordd wahanol. Er enghraifft, bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o Fwrdd Cyngori Cenedlaethol AGGCC sydd newydd ei sefydlu ar ôl iddo gyflwyno tystiolaeth ar y Bil hwn, a byddant hefyd yn ymwybodol o ddull rheoleiddio hirsefydlog y Cyngor Gofal a arweinir gan leygwyr. Bydd y Bil yn datblygu'r gwaith hwn ac mae'n gosod dyletswydd newydd ar

reoleiddwyr i gyhoeddi polisi ar eu gweithgarwch ymgysylltu â dinasyddion a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y ffordd mae hyn yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd credaf mai dyma'r ffordd gywir o weithredu, oherwydd mae'n galluogi'r rheoleiddwyr i addasu eu dull o weithredu wrth iddynt ddysgu sut a phryd mae dinasyddion am gael eu cynnwys yn eu gwaith, a'r hyn sy'n gweithio'n dda. Mae hefyd yn galluogi'r rheoleiddwr i addasu ei ddull o weithredu gan ddibynnu ar y grŵp o ddinasyddion sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â maes gwasanaeth penodol.

Arolygiadau

7. *Y darpariaethau yn y Bil ynghylch cynnwys arolygwyr lleyg, ac a allai'r Bil fod yn fwy eglur?*

Er na chyfeirir atynt yn benodol yn y Bil, rydym yn cydnabod y gall arolygwyr lleyg, o dan amgylchiadau priodol, wneud cyfraniad effeithiol i'r broses arolygu. Yn wir, mae AGGCC wedi defnyddio arolygwyr lleyg yn ei gwaith. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu cyfyngu'r rheoleiddwr i ddull gweithredu penodol ar wyneb y Bil. Mae'r ddealltwriaeth o waith arolygu gan leygwyr, a beth yw arolygydd lleyg, yn wahanol ar draws ein sector. Yn y pen draw, ni chredaf mai'r Bil yw'r lle i ddarparu'r lefel hon o fanylder gweithredol. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gyhoeddi cynlluniau yn y maes hwn a chyflwyno adroddiadau ar y ffordd y maent yn cael eu cyflawni gan reoleiddwyr yn sicrhau y cewch chi, a'r cyhoedd, gyfle i ystyried a yw'r rheoleiddwyr yn bodloni'r disgwyliadau yn y maes hwn a gwneud sylwadau ar hynny.

8. *Argymhelliad y Comisiynydd Pobl Hwn y dylai Cyngorau Iechyd Cymuned gael rôl ffurfiol wrth gynnal arolygiadau?*

Cytunaf â'r Pwyllgor y gallai fod yn werth defnyddio arbenigedd Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yn y broses arolygu. Rwy'n cydnabod eu bod yn gyswllt pwysig rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a dinasyddion ac rwy'n ymwybodol bod y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi nodi nifer o ffyrdd y gellid defnyddio CICau i wella gweithgarwch goruchwyllo. Nid yw'r Bil fel y mae yn atal CICau rhag cael eu cynnwys yn y broses arolygu. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig bod gosod gofyniad o'r fath ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol yn briodol. Fel y nodais yng nghyfarfod y Pwyllgor, byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyrdd ar nifer o agweddau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol cyn toriad yr haf; ac rwy'n hyderus y bydd mater cynnwys CICau yn rhan o'r drafodaeth sy'n deillio o'r broses honno.

9. *A fyddai'r rheoliadau a wneir o dan adran 38(1) yn galluogi'r rheoleiddwr i godi tâl ar ddarparwyr gwasanaeth am arolygiad, neu ail-arolygiad, o'u gwasanaethau?*

Byddai hyn yn bosibl o dan y Bil fel y'i drafftwyd.

Cydweithio

10. *A yw ffocws Rhan 9 o'r Bil yn ddigon eang er mwyn galluogi cydweithio rhwng y rheoleiddwyr perthnasol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol?*

Rwy'n hyderus bod y Bil yn atgyfnerthu prosesau rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr ac â chyrff eraill. Yn y pen draw, nid mater i'r gyfraith yn unig yw gwneud i sefydliadau

gydweithredu. Fodd bynnag, drwy'r Bil hwn, byddwn yn sicrhau na all fod unrhyw esgusodion dros fethiant y sefydliadau hyn i weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, lle y bo hyn yn briodol. Credaf fod adran 180 o'r Bil, er enghraifft, yn ddyletswydd newydd bwerus ar ein rheoleiddwyr i rannu gwybodaeth os bydd lles mewn perygl.

Mae rhan 9 o'r Bil yn gwahaniaethu rhwng cyrff rheoleiddiol ac awdurdodau perthnasol er mwyn gwahaniaethu rhwng y pwerau a'r dyletswyddau a osodir ar y rheoleiddwyr gofal cymdeithasol y nodir eu swyddogaethau yn y Bil hwn; a'r pwerau a'r dyletswyddau hynny sydd i'w gosod ar y cyrff hynny sy'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'r rheoleiddwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny ac y gall fod ganddynt rôl i'w chwarae o ran eu cynorthwyo. Mae'r cyrff rheoleiddiol a enwir yn y Bil yn gyfyngedig i Weinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn a Chyngor Gofal Cymru; a gosodir yr holl bwerau a dyletswyddau a nodir o fewn Rhan 9 ar y cyrff rheoleiddiol hynny. Mae hynny'n cynnwys egluro bod yn rhaid i'r ddau gorff hyn gydweithredu â'i gilydd wrth arfer eu swyddogaethau (adran 176(1)) ac y cânt arfer eu swyddogaethau ar y cyd (adran 177).

Ar hyn o bryd mae'r Bil ond yn cynnwys rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n gyrrff yng Nghymru yn unig (yn adran 175). Ein bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys yn y rhestr y cyrff hynny yn y DU sy'n rhan annatod o reoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru, er enghraifft, y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae trafodaethau yn cael eu cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd orau o gyflawni'r bwriad hwn.

Gwasanaethau ataliol

11. I ba raddau y bydd y Bil hwn yn darparu gwaith craffu effeithiol o'r gwasanaethau ataliol a ddatblygwyd o dan adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

Rwy'n hyderus ein bod wedi darparu ar gyfer craffu ar wasanaethau ataliol yn effeithiol, gan eu bod wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Bydd adran 15 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol yn eu hardaloedd neu drefnu i wasanaethau o'r fath gael eu darparu. Mae'r ddyletswydd hon yn swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol o fewn ystyr Atodlen 2 i Ddeddf 2014 ac mae o fewn cwrdd pwerau arolygu Gweinidogion Cymru fel y'u nodir yn y Bil hwn sy'n mewnosod adran 149B yn Neddf 2014 ac, felly, gall yr aelodau fod yn hyderus y gellir craffu arnynt ac y gwneir hynny.

Goblygiadau ariannol

12. Yr effaith economaidd ac ariannol a ragwelir o'r fframwaith rheoleiddio, a sefydlwyd gan y Bil, ar ddarparwyr gofal cymdeithasol ar raddfa fach?

Y goblygiadau economaidd ac ariannol i ddarparwyr gwasanaethau ar raddfa fach

Yng Nghymru, mae'r data sydd ar gael yn nodi bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal a chymorth yn ddarparwyr ar raddfa fach. Mae'r proffil hwn yn sicrhau darpariaeth amrywiol a dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y gymuned.

Amcangyfrifir bod effaith ariannol y Bil o 2017/18 ar gyfer darparwyr gofal a chymorth yn yr asesiad effaith rheoleiddiol tua £50 yn ychwanegol y flwyddyn. Disgwylir i lawer o'r gost ychwanegol hon, os nad y cyfan, gael ei llyncu o fewn amser presennol darparwyr ac felly ni chaiff unrhyw effaith ar fusnesau o ran arian parod. Darparwyd y wybodaeth y mae'r cyfrifiadau yn seiliedig arni gan Gymdeithas Gofal Cartref y DU, sefydliad sy'n cynrychioli darparwyr gofal yn y cartref.

Caiff unrhyw ddefnydd o'r pŵer i bennu ffioedd ei wneud mewn ffordd gymesur er mwyn sicrhau na chaiff darparwyr ar raddfa fach eu cosbi'n annheg.

13. Sut yr ariennir y costau uwch o £9.2 miliwn i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru rhwng 2016-17 a 2020-21, o ba adrannau eraill y tynnir yr arian hwn, ac a oes unrhyw oblygiadau i hyn o ran fforddiadwyedd y Bil?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau pontio a fydd yn daladwy gan AGGCC a chostau eraill y bydd yn rhaid iddi eu talu o flwyddyn i flwyddyn.

O ran **costau pontio**, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi cryn dipyn yn y newidiadau sy'n ofynnol gan Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn gyffredinol ac, yn benodol, Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd yr aelodau yn ymwybodol, yn y flwyddyn gyfredol, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi £3 miliwn i'r sector yn uniongyrchol i hwyluso'r broses bontio ac, yn benodol, gefnogi'r gwaith o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae'r arian hwn bob amser wedi'i neilltuo i gefnogi'r agenda newid gyffredinol ym maes gofal cymdeithasol ac, felly, dylai fod ar gael i dalu costau pontio o dan y Bil hwn.

O ran costau parhaus, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tua £1.7m yn flynyddol ar gyfer AGGCC. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn (£1.4m) i'w briodoli i'r broses o roi sgorau ar waith, Fframwaith Barnu Ansawdd ac, yn benodol, yr amser ychwanegol sydd ei angen ar Arolygwyr i lunio barn. Fodd bynnag, yn fy marn i mae'r costau hyn ar gyfer sgorau yn debygol o gael eu lleihau wrth i ni ddeall mwy am y ffordd y gallai'r system weithio, o gofio bod Arolygwyr eisoes yn cynnal arolygiadau ac yn llunio barn ar gydymffurfiaeth. Yn ail, pŵer yw hwn nid dyletswydd. Dim ond ar ôl llunio rheoliadau manwl y bydd ganddynt eu Hasesiad Effaith Rheoleiddiol eu hunain y gellid ei gyflwyno. Felly, caiff y Cynulliad gyfle, drwy weithdrefn gadarnhaol, i asesu a yw'r system wedi'i chostio'n gywir ac a ddarperir adnoddau priodol ar ei chyfer. Ac, wrth gwrs, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sgorau os nad ydynt yn cynnig gwerth am arian.

Mae'r gost sylweddol arall yn gysylltiedig â sicrhau sefydlogrwydd y farchnad a chyflawni darpariaethau goruchwyllo gan y rheoleiddiwr. Mae AGGCC wedi amcangyfrif y bydd hyn yn costio £200,000, er fy mod yn sicr bod cyfleoedd i sicrhau arbedion maint yn y maes hwn, o gofio bod gwaith tebyg eisoes yn cael ei wneud gan adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru a bod cynllun goruchwyllo sy'n cyd-fynd yn agos iawn ag ef ar waith yn Lloegr.

Rwyf yn sicr y bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r darlun ehangach a'r ffactorau hynny sydd ar waith a fydd yn effeithio ar unrhyw ofynion o ran adnoddau yn y pen draw.

Fel y gw r y Pwyllgor, yn ogystal â bod yn gyfrifol am reoleiddio gofal cymdeithasol, mae AGGCC hefyd yn goruchwyllo blynyddoedd cynnar a gofal plant. Felly, mae gwaith AGGCC yn dilyn y cyfarwyddiadau polisi a nodir gan fy nghydweithwyr yn y Cabinet, y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae newidiadau sylweddol yn y maes hwnnw yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, er enghraifft cynyddu oedran cofrestru gorfodol ar gyfer gofal plant o wyth oed i 16 oed neu 17 oed yn achos plant anabl.

Fel Llywodraeth Cymru rydym yn gweithio ar draws portffolios, gan gynnwys portffolio'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am reoli AGGCC yn weinyddol, er mwyn sicrhau'r bod yr Arolygiaeth yn cael ei rhedeg yn y ffordd fwyaf costeffeithiol.

Bydd y Papur Gwyrdd rwyf wedi ymrwymo i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn ystyried y ffordd y mae AGIC ac AGGCC yn cydweithio, a lle maent wedi'u lleoli. Bydd canlyniad y ddadl honno hefyd yn cael cryn effaith ar gostau unrhyw newid.

Gallaf gadarnhau, o dan y trefniadau presennol, y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ariannu'r costau a ddaw i ran AGGCC o ganlyniad i'r Bil hwn.

14. Yr amserlenni a ragwelir ar gyfer darparu dadansoddiadau cost a budd mwy manwl o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau i gael ei adolygu. Bydd yr aelodau yn ymwybodol, cyn i mi fynd i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn ddiweddar, fy mod i wedi nodi mewn gohebiaeth rai mân newidiadau i'r cyfrifiadau a geir ynddo, a oedd wedi dod i'r amlwg drwy'r broses adolygu hon. Byddaf yn cyflwyno fersiwn ddiwygiedig ar yr adeg briodol.

O ran effaith is-ddeddfwriaeth, caiff ei datblygu gan ymgynghori â rhanddeilaid fel y caiff asesiadau effaith rheoleiddiol llawn a chadarn eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rheoliadau drafft.

Y goblygiadau o ran Hawliau Dynol

15. Y dadansoddi sydd wedi bod, wrth ddrafftio'r Bil a pharatoi'r Memorandwm Esboniadol, o'r goblygiadau Hawliau Dynol i'r camau gweithredu a gynigir yn unol â'r Bil?


Rwy'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r hawliau a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fel y gwyddoch, er mwyn bod o fewn cymhwysedd mae'n rhaid i'r darpariaethau yn y Bil fod yn gydnaws â'r Confensiwn. Ystyriwyd materion hawliau dynol fel rhan o'r cyngor cyfreithiol cyffredinol a gefais ac a'm galluogodd i wneud y datganiad yn y Memorandwm Esboniadol fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'r Llywydd hefyd wedi penderfynu bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn ateb y cwestiynau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at ateb unrhyw gwestiynau pellach gan aelodau maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Cofion cynnes,

A handwritten signature in black ink, reading "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style and is enclosed in a thin black rectangular border.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

ssia

Improving Social Care in Wales
Gwella Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Paratoi Datganiad ar Sefyllfa Marchnad: Cyfeirlyfr Comisiynydd

[Gweler y cynnwys](#)



Tudalen y pecyn 48

ipc
institute of
public care

OXFORD
BROOKES
UNIVERSITY

Hoffai SSIA ddiolch i Sefydliad Gofal Cyhoeddus Prifysgol Brookes, Rhydychen, am ei rôl flaengar ynglŷn â llunio'r deunydd hwn.

At hynny, hoffai gydnabod cyfraniad arbennig Steve Vaughan (Llywodraeth Cymru), Cylch Ymgynghorol Polisiâu Comisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a staff comisiynu'r awdurdodau lleol.

Cyhoeddwyd fis Mawrth 2014 yn sgîl gwaith aeth rhagddo yn 2013.

Rhif ISBN: 978-1-78286-010-5

Paratoi Datganiad ar Sefyllfa Marchnad: Cyfeirlyfr Comisiynydd 4

1. Cyflwyniad	4
2. Y cyd-destun cenedlaethol	4
3. Diffinio hwyluso'r farchnad	5
4. Gweithgareddau ar gyfer hwyluso'r farchnad	7
4.1 Dod o hyd i wybodaeth am y farchnad a'i rhannu	7
4.2 Rhoi trefn ar y farchnad	8
4.3 Camau ymyriad yn y farchnad	8
5. Beth ydy datganiad o sefyllfa marchnad?	8
6. Pa gwestiynau mae angen i DSM fynd i'r afael â nhw?	9
7. Sut olwg fydd ar DSM?	10
8. Y cwestiynau sy'n codi eu pennau amlaf	12
8.1 Oes rhaid inni baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad?	12
8.2 Oes caniatâd inni baratoi'r datganiad o sefyllfa'r farchnad yn rhan o bartneriaeth ar y cyd â'n partneriaid?	12
8.3 Mae'n darparwyr ni'n rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol: gawn ni baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad ar y cyd?	12
8.4 Sut rydyn ni'n diffinio marchnad - ynteu ai sôn am ofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd ydyn ni?	12
8.5 Beth a olygir wrth 'wynebu'r farchnad'?	12
8.6 Mae gyda ni ddigon o fanylion ynglŷn â'r galw yn barod, pam mae eisiau rhagor o waith dadansoddi?	12
8.7 Beth a olygir wrth 'poblogaethau cyfan'?	13
8.8 Os defnyddwyr y gwasanaethau gofal fydd yn cyfeirio'r galw a'r cyflenwad yn y dyfodol, pam dylai'r awdurdod drafferthu?	13
8.9 Oes angen strategaethau comisiynu arnon ni bellach?	13
8.10 Ym mha fodd dylen ni ddosbarthu datganiadau o sefyllfa'r farchnad?	13
9. I gloi	13

ATODIADAU 14

Atodiad 1: Y berthynas rhwng strategaeth gomisiynu, datganiad o sefyllfa'r farchnad a chynllun caffael	14
Atodiad 2: Deunyddiau enghreifftiol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion	15
Atodiad 3: Enghraifft o ddatganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau i blant	17

1. Cyflwyniad

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynladwy yn cynnwys ymrwymiad i hwyluso deialog ystyrlon rhyngddi hi a chomisiynwyr a darparwyr, creu darlun clir o'r marchnadoedd cyfredol a phenderfynu ble mae angen eu hailgyflunio er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y defnyddwyr a'r rhai sy'n rhoi gofal iddyn nhw.

I roi cymorth ynglŷn â hynny, gofynnodd yr asiantaeth er gwella'r gwasanaethau cymdeithasol ('AGGC') i Sefydliad Gofal Cyhoeddus Prifysgol Brookes Rhydychen (IPC) i baratoi canllaw i gomisiynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant ynglŷn â pharatoi datganiad ar sefyllfa'r marchnadoedd.

Does dim un gofyn statudol i baratoi datganiadau ar sefyllfa'r farchnad yng Nghymru. Serch hynny, mae creu darlun clir o'r anghenion a'r marchnadoedd yn weithred allweddol ar gyfer sicrhau trefnau comisiynu effeithiol; ac mae'r cyfeirlyfr hwn yn cynnig cymorth i gomisiynwyr ynglŷn â pharatoi datganiadau o sefyllfa'r farchnad ar gyfer maes gofal cymdeithasol. Cafodd ei lunio wedi cynnal cyfres o weithdai braenaru ar faterion hwyluso'r farchnad ynghyd â gweithdy ymgynghori y daeth comisiynwyr o bob rhan o Gymru iddo yn ystod gwanwyn 2013. Dyma ei gynnwys:

- Crynodeb o'r polisi a'r arweiniad yn genedlaethol.
- Gwerthusiad o'r syniadau allweddol sy'n cyfeirio trefnau hwyluso'r farchnad.
- Trosolwg ar yr hyn ddylai gael ei gynnwys mewn datganiad ar sefyllfa'r farchnad.
- Y cwestiynau hynny sy'n codi eu pennau amlaf.
- Enghreifftiau o ddatganiadau ar sefyllfa'r farchnad ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant.



2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae dwy o ddogfennau polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru sydd yn benodol berthnasol o ran trefnau comisiynu a hwyluso ym maes gofal cymdeithasol.

Yn y lle cyntaf, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Arweiniad Adran 7 i awdurdodau lleol yn 2010 ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae 'Fframwaith ac Arweiniad Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol (2010)' yn cydnabod bod trefnau comisiynu gofal cymdeithasol yn un o'r gweithgareddau pwysicaf y bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw. Mae'r arweiniad yn cynnwys safonau - a'r rheiny yn canolbwyntio ar sefydlu a chynnal cynlluniau comisiynu a gafodd eu seilio ar dystiolaeth ac â deilliannau yn ganolbwynt iddyn nhw. Mae'n pwysleisio'r angen bod comisiynwyr yn dyfarnu, ar sail eu dadansoddiad o'r farchnad sydd ohoni, ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf priodol o fynd ati i ddatblygu'r farchnad a phrynu gwasanaethau yn eu hardaloedd eu hunain, gan gynnwys gwahanol fathau o gytundebau, cymorthdaliadau neu ddarpariaeth mewnl.

Cafodd yr ail ddogfen, 'Gwasanaethau Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu' ei chyhoeddi yn 2011. Ynnddi mae'r llywodraeth yn amlinellu ei huchelgais ynglŷn â thrawsnewid gofal cymdeithasol ac yn adlewyrchu ei hymateb i anghenion cyfnewidiol y dinasyddion, yn ogystal â'r cwtogi ar arian cyhoeddus. Ceir pwyslais yn benodol ar y canlynol:

- Rhagor o ymreolaeth o du'r dinesydd.
- Canolbwyntio ar ddeilliannau ynghyd â chymau ataliol.
- Yr angen am gyfuno ymdrechion a threfnau cydweithio er mwyn osgoi dyblygu gwaith a chanolbwyntio ar anghenion y bobl.
- Ffordd o fynd ati sy'n cyfuno adnoddau'r sectorau gwladol, preifat a gwirfoddol.

Yn y fframwaith hwn mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mynegiant i'w barn bod rhaid i lywodraethau ar raddfeydd cenedlaethol a lleol lywio gwelliannau yn y farchnad, yn hytrach na dim ond ymateb i'r amrediad o wasanaethau sydd ar gael eisioes. Mae anogaeth i gomisiynwyr i gynnal trafodaethau gyda'r darparwyr er mwyn gofalu bod gofal cymdeithasol yn cael ei wireddu yn unol ag ysbryd y gwasanaethau gwladol.

Gall comisiynwyr ddod o hyd i gymorth ar gyfer rhoi 'Fframwaith ac Arweiniad Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol' (2010) a 'Gwasanaethau Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu' (2011) ar waith - trwy gyfrwng rhaglen gymorth AGGC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd wedi ei hamlinellu yn y ddogfen 'Cynllun Gweithredu Llywodraeth Leol (2012)'.

Yn ogystal â'r arweiniad sydd ar gael, mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ar ei daith trwy broses craffu. Mae e'n cynnwys nifer o elfennau pwysig sy'n berthnasol i feithrin marchnadoedd gofal lleol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Hyrwyddo'r amrediad o wasanaethau i gynnal lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw – a lles eu cynhalwyr yn ogystal.
- Dealltwriaeth well o anghenion y boblogaeth leol a gallu ac adnoddau'r gwasanaethau lleol i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Hyrwyddo sefydlu trefnau cynnal newydd trwy gyfrwng mentrau cymdeithasol, cyrff cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector.
- Hyrwyddo gwasanaethau ataliol o du'r trydydd sector yn y trefniadau ar gyfer rhoi gofal a chymorth, ynghyd â gwneud y gwasanaethau sydd ar gael yn hysbys i'r bobl.
- Sefydlu gwasanaeth i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r bobl ynglŷn â'r gofal a'r cymorth sydd ar gael law yn llaw â rhoi cymorth i allu manteisio arnyn nhw. Darparu gwybodaeth a chynghor ynglŷn â'r gofal a'r cymorth mae'r Bil yma'n darparu ar eu cyfer, y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael i'r bobl yn lleol a sut gallan nhw fanteisio arnyn nhw - ynghyd â ffyrdd o fynegi pryderon ynglŷn â phobl y mae'n ymddangos bod angen gofal a chymorth arnyn nhw.

A chymryd bod y Bil yn mynd i ben ei daith ac yn ymddangos yn ddeddf yn 2014, bydd iddo oblygiadau sylweddol, ychwanegol yn achos swyddogaethau'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol sydd yn hwyluso'r farchnad.

3. Diffinio hwyluso'r farchnad

Un elfen yn unig, ymhlith amrediad o weithgareddau y mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymgymryd â nhw os ydyn nhw i lwyddo o ran hyrwyddo datblygu gwasanaethau a fydd y rhai gorau i ddiwallu anghenion y bobl leol, yw'r datganiad o sefyllfa'r farchnad. Hyrwyddo'r farchnad yw'r term ar yr amrediad hwn o weithgareddau ac mae modd ei ddiffinio fel a ganlyn¹:

"O'i seilio ar ddealltwriaeth dda o'r anghenion a'r galw, proses yw hyrwyddo'r farchnad lle bydd comisiynwyr strategol yn gofalu bod darpariaeth briodol, fforddiadwy

ar gael ar gyfer diwallu'r anghenion a sicrhau deilliannau effeithiol – yn y presennol a'r dyfodol fel ei gilydd."


Bwrw golwg manylach ar yr ymadroddion yn y diffiniad:

Ymadrodd	Sylwadau
Dealltwriaeth o'r angen a'r galw	Bydd llawer o awdurdodau lleol, fel mater o drefn, yn hel gwybodaeth am yr anghenion yn unol â gofynion Asesiadau Strategol ar y Cyd o'r Anghenion - neu ddogfennau cyffelyb. Efallai bydd gyda nhw, hefyd, ddata sy'n bwrw golwg dros y galw. Serch hynny, mae'r orchwyl yn golygu mwy na dim ond cymharu'r gwasanaethau cyfredol â maint y boblogaeth. Mae dealltwriaeth o'r galw yn ymwneud, hefyd, â pha ffyrdd o fynd ati sy'n gweithio orau, gyda phwy a phryd. Mae'n cynnwys holi lle byddai hi orau i dargedu ymyriadau a deall pa sefyllfaoedd allai waethygu, gan arwain at ddeilliannau gwael i'r unigolyn a chostau mawr, y byddai modd eu hosgoi o bosibl, i faes gofal y cyhoedd. I orffen, rhaid i gomisiynwyr strategol gymhwyso eu dealltwriaeth yng nghyd-destun defnyddwyr y gwasanaethau gofal a'r defnyddwyr posibl.
Comisiynwyr strategol	Yn y gorffennol, byddai hyn, fwy na thebyg, wedi golygu'r swyddogaethau comisiynu a threfnau cytundebau ym maes gofal cymdeithasol. Mae bwrw golwg cyfannol dros y farchnad, fodd bynnag, yn golygu cwmpasu'r rheiny sy'n ymwneud â meysydd tai, cynllunio a datblygu cymunedau, yn ogystal â meysydd iechyd ac addysg - i roi enghreifftiau.

¹ Mae rhai o'r cysyniadau sy'n cael eu harchwilio yn y papur hwn yn deillio o waith cynharach gan IPC ar y cyd â'r National Market Development Forum (NMDF). Un o ffrydiau gwaith Partneriaeth Think Local, Act Personal yw NMDF ac mae rhagor o fanylion i'w cael ar wefan www.thinklocalactpersonal.org.uk

Ymadrodd	Sylwadau
Darpariaeth amrywiol, briodol a fforddiadwy	<p>Mae galw am gydbwysedd yn hyn o beth:</p> <p>Fe all amrywiol olygu dewis o ddarparwyr neu ddewis o wasanaethau gan un darparwr. Dydy e ddim yn golygu marchnad lle bydd nifer o ddarparwyr a phob un yn cynnig yr un gwasanaeth.</p> <p>Gall 'priodol' gael ei ddehongli mewn amryfal ffyrdd; e.e., efallai na fydd gwasanaeth adsefydlu rhywun hen yn briodol ar gyfer oedolyn ifanc anabl; hwyrach bydd maethwr yn sefyllfa delfrydol ar gyfer gofal ond ei fod yn rhy bell o gartref gwreiddiol plentyn i fod yn dderbyniol.</p> <p>Er nad yw 'fforddiadwy' yn golygu 'beth bynnag y gost', i'r un graddau dydy e ddim yn golygu'r rhataf un. Dyna'r sefyllfa lle bo'r awdurdod lleol neu unigolyn yn prynu yn annibynnol, neu trwy gyfrwng taliad uniongyrchol.</p>
Sicrhau deilliannau effeithiol	<p>Mae defnydd mwy helaeth ar y gair 'deilliannau' ym maes gofal y cyhoedd. Serch hynny, mae gwahaniaeth rhwng datganiad syml o'r deilliannau dymunol a thalu am y gwasanaeth hwnnw trwy wireddu'r deilliannau hynny. Enghraifft o hynny fyddai lle bo prynu gwasanaeth gofal yn y cartref yn newid o bryniant yn ôl cost a nifer yr achosion i un lle bo'r pryniant wedi ei seilio ar gasgliad o nodau adsefydlu neu ailalluogi.</p>
Yn y presennol ac yn y dyfodol	<p>Mae angen bod hwyluso'r farchnad yn cyfuno ffyrdd strategol o fynd ati ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir fel ei gilydd. Materion beunyddiol, megis cyflenwad a galw, fydd pryder y dyfodol agos. Serch hynny, fel y mae darparwyr yn ei faentumio, mae'r allwedd i farchnad lwyddiannus yn ddibynnol ar gysondeb y galw a'r prisiau. Mae buddsoddi yn gofyn am allu i ragweld sut bydd y farchnad yn ymateb ac ar hirhoedledd os yw syniadau newydd i aeddfedu a datblygu.</p>

Yn y ddogfen 'Fframwaith ac Arweiniad ar gyfer Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol (2010)' caiff comisiynu ei ddisgrifio yn ei hanfod yn nhermau cyfres ddilynol o weithgareddau wedi eu canoli o gwmpas 4 o bedrannau:



Mae hwyluso'r farchnad a datganiadau o sefyllfa'r farchnad yn rhan o'r pedrant 'sicrhau gwasanaethau', sydd wedi ei fwriadu yn gyfraniad ymaferol ac adeiladol ar gyfer gofalu bod y berthynas rhwng comisiynwyr, darparwyr a gwasanaethau yn un adeiladol, aeddfed ac, uwchlaw popeth, o werth i ddefnyddwyr y gwasanaethau. Rhan yn unig o'r orchwyl gomisiynu yn ei chyfanrwydd ydyn nhw, ond maen nhw'n dod yn fwyfwy pwysig fel bydd awdurdodau lleol yn anelu at gydweithio adeiladol gyda phob un o'r lliaws o wahanol ddarparwyr gwasanaethau yn eu cymdogaethau lleol i gael y deilliannau gorau yn wyneb anghenion gofal a chymorth eu pobl.

A Chymru â'i golwg ar adeiladu ymhellach ar ei hetifeddiaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar eu chymunedau a hyrwyddo ac annog patrymau gwasanaeth y mae'r dinasyddion² a mentrau cymdeithasol³ yn eu cyfeirio, bydd angen i'r awdurdodau lleol fanteisio ar ddisgyblaeth trefnau comisiynu i ofalu bod eu hadnoddau yn hyrwyddo dewis o wasanaethau a bod marchnad gofal cymdeithasol eu hardaloedd yn rymus ac yn gallu cynnig dewis gwirioneddol i'w dinasyddion. Y posibilrwydd yw y bydd rhagor o wasanaethau'n datblygu ac yn ehangu trwy gyfrwng darpariaeth uniongyrchol i unigolion ac y bydd swyddogaeth yr awdurdod lleol yn ymwneud llai â rheoli cytundebau ar ran y dinasyddion, ac, yn hytrach, yn golygu mwy o ymwneud ag estyn cymorth i ofalu bod gan eu hardal ystod o ddarparwyr sydd yn deall anghenion y boblogaeth a'u bod â'r gallu i ddiwallu ei hanghenion. Bydd trefn ar gyfer hwyluso'r farchnad trwy gyfrwng rhannu gwybodaeth a deialog barhaus yn ffordd allweddol o gael hynny i ddigwydd.

² Er enghraifft, Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion <http://wacds.org.uk/>

³ Er enghraifft, rhai o ofynion Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

4. Gweithgareddau ar gyfer hwyluso'r farchnad

Gorchwyl ddigon cymhleth yw hwyluso'r farchnad, ac mae'n gofyn am gasgliad o weithgareddau a medrau newydd gan y comisiynwyr.



Rhown ystyriaeth i'r rhain yn eu tro:

4.1 Dod o hyd i Wybodaeth am y Farchnad a'i Rhannu

Mae hyn yn cynnwys gofalu bod gan yr awdurdod lleol tipyn o wybodaeth am y farchnad, ei fod yn deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw a'r cyflenwad ac yn meddu ar weledigaeth glir o natur gofal o safon dda a'r deilliannau y bydd yn eu cyflawni. Bydd y comisiynydd, wrth gwrs, eisïau gwybod pwy sy'n darparu beth ar gyfer pob marchnad, ble yn union maen nhw, ynghyd ac i bwy maen nhw'n darparu ac am ba bris. Serch hynny, bydd angen iddyn nhw ateb rhai o'r cwestiynau a ganlyn:

- Beth ydy nodweddion ansawdd da?
- Pa mor gynladwy yw'r busnesau rhoi gofal sy'n gwasanaethu'r ardal leol?
- Ydy'r gwasanaethau yn ddigon amrywiol ac yn ddigon hyblyg i ddiwallu'r angen yn lleol neu ydy'r farchnad yn dibynnu ar ychydig iawn o ddarparwyr, lle mae'r gwasanaeth yn cael ei roi er hwylustod y darparwr yn hytrach nag er hwylustod i'r defnyddiwr?
- Beth yw'r diffygion yn y ddarpariaeth gyfredol?
- Beth mae atebion yr arolygon o'r cwsmeriaid yn ei ddweud wrthon ni ynglŷn a phatrwm y gwasanaeth yn y dyfodol?

Bydd y farchnad gofal cymdeithasol yn rhyngweithio'n agos â'r marchnadoedd ym meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau tai, trafndiaeth a hamdden a'r cyfan yn ddibynnol ar ei gilydd; a gall hynny ddylanwadu'n sylweddol ar economïau lleol. Fe ddylai dealltwriaeth lawn o'r farchnad, felly, olygu gweithio ar y cyd â chomisiynwyr gofal cyhoeddus eraill ynglŷn â hel data a'u rhannu, lle bynnag y bo modd. Mae hi'n hanfodol bwysig nad yw'r wybodaeth yma'n cael ei hystyried yn rhywbeth sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yn unig. Dyma wybodaeth werthfawr a fydd, o'i rhannu â darparwyr a darpar ddarparwyr, yn gymorth iddyn nhw ddod i benderfyniadau da ym myd busnes ac i ddatblygu eu busnesau ar gyfer diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Mae angen i'r awdurdod lleol i ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer esbonio i bob un o'r budd-ddeiliaid union sefyllfa gyfredol y farchnad gofal cymdeithasol a phennu sut beth fydd hi ar ryw adeg benodol yn y dyfodol.

Unwaith y bydd y data wedi eu corlannu a'u dadansoddi, dyna sail datganiad o sefyllfa'r farchnad (DSM). Rhywbeth ar gyfer y darparwyr yw'r DSM yn bennaf, er y gall fod o ddiddordeb i'r defnyddwyr – yn gymorth iddyn nhw i ddeall bwriadau'r awdurdod ynglŷn â chomisiynu ac i ymateb i hynny. Fe fwrwn ni olwg ar gynnwys DSM yn fwy manwl yn nes ymlaen yn hyn o ddogfen.

4.2 Rhoi Trefn ar y Farchnad

Mae rhoi trefn ar farchnad yn cynnwys ei gwneud hi'n glir ym mha fodd y mae'r awdurdod yn bwriadu gweithredu i ddylanwadu arni hi. I roi enghraifft – byddai gweithgaredd sy'n cynorthwyo darparwyr i newid cyfluniad y broses caffael o un 'cost a nifer' i 'gomisiynu deilliannau' yn weithgaredd a fyddai'n cyflunio'r farchnad.

Fe all rhoi trefn ar y farchnad olygu gweithio ar y cyd â budd-ddeiliaid allweddol eraill, megis cydweithwyr ym meysydd iechyd, gwasanaethau tai a gwaith cynllunio. Gallai enghreifftiau eraill o roi trefn ar y farchnad olygu gweithio ar y cyd â chynllunwyr i baratoi arweiniad a fo'n adlewyrchu galw yn y tymor hir am gartrefi gofal a thai â chymorth yng nghyd-destun pobl hŷn neu bobl ag anabledd dysgu. Fe allai, hefyd, olygu chwilio am rwystrau sy'n cadw darparwyr penodol rhag dod i mewn i'r farchnad - a'u symud, sefydlu sianelau i gasglu syniadau darparwyr ynglŷn â phatrymau gofal newydd, neu arbrofi gyda ffyrdd newydd o fynd ynghyd â'r gofynion.

Yn ogystal â hynny, gall rhoi trefn ar y farchnad olygu bod yr awdurdod lleol yn meithrin medrau a chymwyseddau ei weithwyr ei hun, fel eu bod nhw wedi eu harfogi'n well ar gyfer hwyluso'r farchnad.

4.3 Camau Ymyriad yn y Farchnad

Daw camau ymyriad yn y farchnad a chanlyniadau hel gwybodaeth, y dadansoddiad ohoni a phroses rhoi trefn ar y farchnad at ei gilydd ar gyfer creu'r farchnad a ddymunir. Gall hynny gynnwys, er enghraifft, ysgogi rhannau penodol o'r farchnad trwy gymhelliant ariannol; cynnig hyfforddiant arbenigol; cynorthwyo darparwyr yn eu gwaith cynllunio busnes; gweithio ar y cyd â darparwyr ac â chwsmeriaid i baratoi deunyddiau gwybodaeth safonol; sefydlu cyfryngau ar gyfer cael adborth y defnyddwyr ar y ddarpariaeth; neu sefydlu mentrau nad yw gwneud elw yn unig reswm am eu bodolaeth.

5. Beth ydy datganiad o sefyllfa marchnad?

Oddi mewn i'r orchwyl gyffredinol i hwyluso'r farchnad, felly, mae datganiad o sefyllfa'r farchnad yn gynnwys allweddol ar gyfer corlannu gwybodaeth am y farchnad a'i rhannu. Mae iddo'r nodweddion a ganlyn:

- Mae e'n cyflwyno darlun o'r sefyllfa gyffredol o ran galw a chyflenwad ynghyd â'r tueddiadau posibl ar gyfer y dyfodol.
- Mae'n cyflwyno dogfen fer, ddadansodol, sy'n cyfleu yn glir y gwahaniaeth rhwng disgrifiad a dadansoddiad. Mae'n esbonio blaenoriaethau'r awdurdod a'r rheiny wedi eu seilio ar werthusiad o'r data a'r dystiolaeth.
- Mae e'n atgyfnerthu ei ddadansoddiad trwy ddwyn ynghyd ddeunydd o amrediad o ffynonellau, megis Asesiadau ar y cyd o'r Anghenion Strategol, arolygon, trefnau monitro cytundebau, adolygiadau o'r farchnad a'r ystadegau o fewn cloriau un ddogfen. Fe ddylai'r data sy'n cael eu cyflwyno fod o gymorth i'r darparwyr i lunio cynlluniau busnes effeithiol.
- Dylai DSM gwmpasu pob un o ddefnyddwyr a darpar-ddefnyddwyr y gwasanaeth yn yr ardal; nid dim ond y rhai hynny sy'n tynnu ar arian y wladwriaeth.



6. Pa gwestiynau mae angen i DSM fynd i'r afael â nhw?

A chymryd ei fod yn ddadansoddiad cryno ac awdurdodol o'r farchnad leol, bydd DSM yn debygol o fynd i'r afael â rhai, onid pob un, o'r cwestiynau a ganlyn i fod yn effeithiol. Fe fydd rhai o'r cwestiynau yma yn ddigon plaen, ac fe fydd hi'n hawdd dod o hyd i'r data perthnasol a'u dadansoddi. O ran cwestiynau eraill, fodd bynnag, bydd angen data newydd a ffyrdd newydd o fynd ynghyd â phethau.

<p>Y galw</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Beth ydy'r tueddiadau cyffredinol o ran y boblogaeth a pha sectorau o'r boblogaeth honno fydd yn ehangu gyflymaf? ● Oes unrhyw wahaniaethau daeryddol yn y modd mae'r poblogaethau wedi eu dosbarthu? ● Beth yw'r berthynas rhwng y boblogaeth yn ei chyfanrwydd a'r bobl sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd? Ydy hi'n bosibl gwahaniaethu rhwng y poblogaethau sy'n hysbys, y rhai y dylen ni wybod amdany'n nhw a'r rheiny sy'n debygol o barhau yn anhysbys? Oes unrhyw newidiadau o ran y galw mae'r darparwyr yn ei weld ac oes modd eu meintioli? ● Oes unrhyw sectorau o'r farchnad lle mae anawsterau penodol ynglŷn â diwallu'r anghenion? ● Ym mha fodd gall tueddiadau'r gorffennol gyfateb i dafl-lwybr galwad y dyfodol ymhen hir a hwyr? ● Pa arolygon sydd wedi eu cynnal ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ac ymhlith defnyddwyr y gwasanaethau? Oes modd dod â'r rhain a deunyddiau adroddiadau ôl-arolwg a gwaith ymchwil gwladol ynghyd i roi arwyddion clir ynglŷn â thueddiadau a deilliannau dymunol y dyfodol?
<p>Y cyflenwad</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Beth ydy dosraniad y gwasanaethau mewn perthynas â'r boblogaeth ar hyn o bryd? Beth oedd patrwm y manteisio ar wasanaethau yn y gorffennol? ● Ydyn ni wedi gallu pennu'r bobl hynny sy'n talu am eu gofal a'u cymorth ac, o wneud hynny, beth ydy'r dosraniad rhwng y gwasanaeth mae'r wladwriaeth yn ei ariannu a'r hyn sydd wedi ei ariannu'n bersonol? ● Ydy'r farchnad yma yn un sefydlog, yn un sy'n tyfu neu'n farchnad sydd ar drai a beth fydd canlyniadau unrhyw un o'r sefyllfaoedd hynny? ● Beth sy'n cael ei gyfrif yn gam cyntaf ansawdd, pa mor dda yw'r perfformiad lleol o edrych ar y cwynion yn ei gylch, yr archwiliadau ac ati? ● Oes yna wasanaethau y bydden ni, ar hyn o bryd, yn ystyried eu bod wedi eu tangyflenwi neu eu gorgyflenwi a pham hynny? ● Pa wasanaethau sy'n fregus eu cyllid, sydd wedi tyfu a pha rai sydd wedi crebachu? ● Oes yna rai darparwyr sy'n cipio rhan sylweddol o'r farchnad?
<p>Arall</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Oes unrhyw sensitifrwydd ynglŷn â phrisiau a pha berthynas sydd wedi ei sefydlu rhwng prisiau ac ansawdd y gwasanaethau. Oes unrhyw sectorau o'r farchnad i'w cael lle byddai pobl yn barod i dalu'n ychwanegol am ddarpariaeth ragorach? ● Ydyn ni wedi amlinellu'r hyn bydden ni'n ei ystyried yn wasanaeth da, ym mha feintiau bydden ni'n ymateb i'r galw ac esbonio pam fod yr awdurdod lleol wedi dod i'r casgliad hwnnw? ● Ydyn ni wedi bod yn glir ein meddliau ynglŷn â lefelau tebygol adnoddau'r awdurdod lleol yn y dyfodol – yn nhermau bwrw amcan ynglŷn â phrynu gwasanaethau a'r adnoddau y gallai'r awdurdod ei gynnig i'r sector, e.e. hyfforddi, ac ati, ● Oes gyda ni gynllun clir ynglŷn â'r defnydd posibl o'r DSM a phroses fyddai'n gyfrwng i'r darparwyr i ymateb i ddadansoddiad yr awdurdod lleol o'r farchnad?

7. Sut olwg fydd ar DSM?

Bydd rhaid llunio DSM i ddiwallu anghenion cylchoedd penodol o'r boblogaeth, wrth gwrs; a bydd hyd y ddogfen a'r manylion yn amrywio. Serch hynny, bydd nifer o nodweddion yn gyffredin i bob un ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r hyn a fyddai'n nodweddiadol o gynnwys DSM.

Adran	Elfennau allweddol
Crynodeb o'r trywydd y dymuna'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn y drefn gomisiynu ei ddilyn ynghyd â diben y ddogfen	<ul style="list-style-type: none"> ● Crynodeb o'r deilliannau i'w cyflawni ac unrhyw elfennau polisi, deddfau a rheoliadau a fydd yn dylanwadu ar y farchnad. ● Bydd yn cynnwys crynodeb o'r elfennau allweddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adrannau unigol isod. ● Dyma'r adran i'w chyfansoddi yn olaf un ac, yn ddefnyddol, ddylai hi ddim fod yn hwy na thudalen.
Rhagfynegiadau'r awdurdod ynglŷn â'r galw sydd i ddod, gan nodi'r manau fydd dan bwysau	<ul style="list-style-type: none"> ● Dadansoddiad o'r boblogaeth gyffredol a rhagfynegiadau am yr hyn sydd i'w ddisgwyl dros y 5 i 10 mlynedd ar gyfer y sector perthnasol. Bydd yn nodi'r effaith y gallai unrhyw newid yn y boblogaeth ei gael ar y galw ar wasanaethau'r dyfodol. ● Dylai'r dadansoddiad gwmpasu'r boblogaeth lawn o ddefnyddwyr posibl y gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n talu drostyn nhw eu hunain a'r rheiny mae'r awdurdod lleol yn eu hariannu – naill ai'n rhannol neu yn gyfangwbl. Fe ddylid cynnwys ffordd y defnyddwyr o weld pethau yn yr adran yma. ● Pwysleisio agweddau penodol ar y galw presennol a'r dyfodol; e.e. yn ddaearyddol (wardiau trwchus eu poblogaeth) ac o ran natur (dryswch meddwl, anabledau dwys a lluosog ac ati), ac a yw hyn yn debygol o gynyddu, dal yr un fath neu ostwng. Bydd y dadansoddiad hwn yn cynnwys y rhesymeg sy'n sail i'r amcangyfrifon.
Darlun yr awdurdod lleol o'r sefyllfa gyffredol ynglŷn â chyflenwad, gan roi sylw i gryfderau a gwendidau yn y farchnad	<ul style="list-style-type: none"> ● Arolwg o'r gwariant cyffredol ar wasanaethau ar draws y farchnad berthnasol, gan gynnwys adnoddau'r sectorau gwladol, preifat a gwirfoddol. ● Darlun <i>meintiol</i> o'r cyflenwad, gan fwrw golwg ar pa wasanaethau sy'n cael eu darparu – i bwy, ymhle ac ar ba raddfa. Dyma rai materion i fod yn effro iddyn nhw: ydy'r darlun o'r ddarpariaeth yn debygol o ateb galw'r dyfodol; ydy'r gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf, ydy'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnig dewis gwirioneddol? ● Darlun <i>ansoddol</i> o'r cyflenwad cyffredol gan nodi'r meysydd hynny lle mae'n ymddangos nad yw'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau angenrheidiol na gofynion a deilliannau'r defnyddwyr ychwaith. Gall y dyfarniad fod wedi ei seilio ar adroddiadau, rhestr gŵynion, atebion i arolygon ymgyrchoedd cwsmer cudd ac ati.
Patrymau ymarfer penodedig y bydd yr awurdod lleol a'i bartneriaid yn eu cefnogi	<ul style="list-style-type: none"> ● Arolwg o'r ffordd mae'r sefydliad comisiynu yn deall proses cyflenwi yn nhermau'r dystiolaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ffordd gorau o fynd ati a'r methodolegau gorau. ● Esboniad ar y patrymau gofal dymunol ynghyd â dadansoddi i ba raddau mae'r ddarpariaeth gyffredol yn cyfateb iddyn nhw. ● Awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai'r farchnad sicrhau newidiadau. ● Datganiad ynglŷn â bwriad y comisiynwyr i naill ai ddarparu ynteu brynu unrhyw wasanaethau yn uniongyrchol; a fyddan nhw'n chwilio am gytundebau fframwaith gyda'r darparwyr ac a fydd y rheiny wedi eu seilio ar ddeilliannau. ● Esboniad ar y meysydd lle bydd yr awdurdod lleol yn ceisio dylanwadu ar yr arolygiaeth, defnyddwyr y gwasanaethau, y rhai sy'n rhoi gofal, neu'r llywodraeth genedlaethol.

Adran	Elfennau allweddol
Lefel tebygol yr adnoddau yn y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> ● Blaenoriaethau'r awdurdod lleol: lle mae e eisiau gweld datblygu gwasanaethau a'r meysydd hynny lle byddai yn llai tebygol o brynu gwasanaethau. ● Disgrifiad o'r drefn caffael debygol yn y dyfodol, a sut y gallai hynny gyfeirio'r delfryd a nodwyd yn yr adran flaenorol. ● Os oes llai o arian i'w neilltuo, esboniad ar hynny a'r cyfleoedd i'r farchnad i gynnig am gytundebau neu i gymryd rhan ynglŷn â syniadau ar gyfer ail gynllunio gwasanaethau a phatrymau cynnal eraill. Os bydd meysydd penodol mewn perygl o weld llai o arian, dadansoddiad o'r meysydd a fydd yn debygol o wynebu datgomisiynu neu golli cefnogaeth - ynghyd â'r ffordd y bydd yr awdurdod lleol yn ceisio sicrhau'r newidiadau hynny.
Y cymorth bydd yr awdurdod lleol yn ei gynnig ar gyfer gwireddu'r patrwm mae e wedi ei nodi	<ul style="list-style-type: none"> ● Dadansoddiad o'r effaith mae'r awdurdod yn ei ragweld pe bai rhagor o ddefnyddwyr y gwasanaethau yn talu am eu gofal eu hunain neu'n trafod y telerau ar gyfer hynny, ynghyd ag effaith hynny ar y farchnad. ● Cyfleoedd i ddylanwadu ar syniadau yn y dyfodol ac ar unrhyw gynigion penodol a allai fod ar gael i ddarparwyr; e.e. cytundebau wedi eu seilio ar ddeilliannau, argaeledd tiroedd, cymorth i gael caniatâd cynllunio, gwarantu neu danysgrifennu gwasanaethau, hyfforddi a datblygu, cymorth i fusnesau a rheolwyr.

Nid gorchwyl hawdd mo llunio DSM. Mae gofyn am wybodaeth sicr, dadansoddiad cryno a pharodrwydd i ymgysylltu â nifer o wahanol fudd-ddeiliaid mewn modd a fydd yn hybu trafodaeth ddiffuant ac ystyrlon. Serch hynny, fe all fod yn werth y drafferth, o ran bod yn gymorth i awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddod o hyd i'r math o wasanaethau y bydd eu hangen ar gyfer diwallu anghenion y bobl leol yn y blynyddoedd sydd i ddod. u



8. Y cwestiynau sy'n codi eu pennau amlaf

Mae llawer o awdurdodau ar draws gwledydd Lloegr, Yr Alban a Chymru wrthi'n paratoi datganiadau o sefyllfa'r farchnad ar hyn o bryd. Amlinellwn, isod, rai o'r cwestiynau hynny sy'n codi eu pennau amlaf yn eu gwaith, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer eu hateb:

8.1 Oes rhaid inni baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad?

Does dim un gofyn statudol ar unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad. Serch hynny, mae cael darlun cywir o'r anghenion a'r marchnadoedd yn weithgaredd allweddol yn y ddogfen Cynllun Gweithredu Llywodraeth Leol ac mae paratoi datganiadau o sefyllfa'r farchnad ar gyfer maes gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn arfer dda.

8.2 Oes caniatâd inni baratoi'r datganiad o sefyllfa'r farchnad yn rhan o bartneriaeth ar y cyd â'n partneriaid?

Er bod modd paratoi'r dadansoddiad o'r galw a'r cyflenwad ar y cyd, rhaid bod yr awdurdod lleol yn gwbl glir ynglŷn â'r ffordd y bydd yn mynd ati i hwyluso'r farchnad. Er enghraifft, mae angen i'r awdurdod lleol gyflwyno, yn gwbl ddiamwys, pa adnoddau yn union sydd ar gael; ei ddisgwyliadau ynglŷn â phatrymau cynnal y gwasanaethau ynghyd â'r deilliannau sy'n angenrheidiol. Yn ei hanfod, datganiad clir o gynlluniau'r sector gwladol ar gyfer y farchnad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw'r datganiad o sefyllfa'r farchnad.

8.3 Mae'n darparwyr ni'n rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol: gawn ni baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad ar y cyd?

Fe all fod yn beth synhwyrol i awdurdodau weithio ar y cyd ar baratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad mewn ambell achos. Gallai hynny fod yn gefnogaeth gydfuddiannol i'w awduron. Yn bwysicach na hynny, efallai y byddai'n adlewyrchu cymunedau o ddarparwyr lleol – lle bo cytundebau rhanbarthol wedi eu sefydlu er enghraifft. Serch hynny, lle bo gwahaniaethau, megis o ran y galw, neu yn nhermau'r patrwm ar gyfer cymorth yn y dyfodol neu o ran ffyrdd gwahanol yr awdurdodau o fynd ati, byddai angen pennu'r rheiny yn glir ac yn ddiamwys.

Mae'r rhaglen ar gyfer cydweithio rhanbarthol yn mynd rhagddi ar garlam yng Nghymru ac mae llawer o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn mentrau rhanbarthol i sicrhau rhagor o alluoedd ynghylch rheoli

trefnau comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn achos rhai marchnadoedd, megis cartrefu plant sydd dan ofal awdurdod, gofal arbenigol i bobl ag afiechyd y meddwl neu anabledau dysgu neu drafferthion ynglŷn â chamddefnyddio cyffuriau, er enghraifft, gallai trefnau cydweithredu rhanbarthol fod yn sefyllfa ddefnyddol ar gyfer paratoi DSM rhanbarthol.

8.4 Sut rydyn ni'n diffinio marchnad - ynteu ai sôn am ofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd ydyn ni?

Mae angen bod y canolbwynt ar ddiffiniad y darparwr ei hun o'r farchnad, yn hytrach nag ar y modd mae'r awdurdod lleol yn diffinio ei swyddogaethau. Os bydd darparwyr o'r farn eu bod nhw'n gwasanaethu marchnad sydd wedi ei diffinio gan eu defnyddwyr, megis hen bobl ag anabledau dysgu, fe ddylid paratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer pob un o'r meysydd hynny. Mae hi'n bwysig disgrifio yr hyn sydd o fewn cwmplas y datganiad o sefyllfa'r farchnad - ac weithiau'r rhai sydd tu hwnt iddo. Er enghraifft, bydd rhai datganiadau o sefyllfa'r farchnad yn canolbwyntio ar gylchoedd penodol, megis hen bobl, ac eraill yn canolbwyntio ar adrannau o'r boblogaeth, megis pobl hŷn â dryswch meddwl.

8.5 Beth a olygir wrth 'wynebu'r farchnad'?

Dogfen yw hon y dylid ei pharatoi ar gyfer pobl sy'n darparu gwasanaethau mewn marchnad benodol, boed yn y sector gwladol, preifat neu wirfoddol. Dylai, felly, anelu at roi gwybodaeth i'w darllenwyr na fyddai, o bosibl, yn hysbys iddyn nhw ac a fyddai o gymorth ynglŷn â chynllunio dyfodol eu busnesau. Fe ddylai gynnig darlun clir o unrhyw fylchau yn y farchnad sydd ohoni a nodi'r hyn mae defnyddwyr - a defnyddwyr posibl - yn ei ddweud ynglŷn â'r gwasanaethau. Dylai fod yn ddogfen sy'n hybu trafodaeth rhwng yr awdurdod lleol a'i ddarparwyr.

8.6 Mae gyda ni ddigon o fanylion ynglŷn â'r galw yn barod, pam mae eisïau rhagor o waith dadansoddi?

O ddeall y galw, gallai allosod y data ynglŷn â'r boblogaeth ynddo'i hun - heb gymhwyso dadansoddiad craffach a manylach - fod yn brin o fod yn gymwynas. Er enghraifft: gall y tueddiadau ynglŷn â'r boblogaeth amrywio ymhen amser; gallai arferion wedi eu seilio ar dystiolaeth ddylanwadu ar bersbectifau ynglŷn â'r mathau mwyaf priodol o gamau ymyriad ar gyfer cylchoedd o glientiaid. Yn ogystal â hynny, fe allai'r deddfau a'r polisïau perthnasol newid.

8.7 Beth a olygir wrth 'poblogaethau cyfan'?

Yn y gorffennol dim ond ar y cylchoedd sy'n hysbys a'r rhai mae'r wladwriaeth yn eu hariannu mae llawer o'r strategaethau ar gyfer gofal cymdeithasol wedi bwrw golwg. O roi ystyriaeth i'r 'farchnad gyfan', mae hi'n bwysig ehangu'r dadansoddiad. Er enghraifft, efallai bod nifer y bobl hŷn sydd mewn cartrefi preswyl y mae'r wladwriaeth yn talu amdany'n nhw yn hysbys inni; serch hynny, fe allai fod o gymorth inni gael gwybod faint sydd yn talu amdany'n nhw eu hunain ac i roi ystyriaeth i oblygiadau hynny ar gyfer marchnad y dyfodol. Hwyrach nad yw rhai awdurdodau'n gallu cyrchu'r wybodaeth honno yn hwylus. Serch hynny, fe all fod o fudd petai'r datganiad o sefyllfa'r farchnad ddim ond yn ategu'r wybodaeth gyfredol ac yn rhoi amcan o'r hyn y byddai'r awdurdod yn dymuno gwell dealltwriaeth ohono yn y dyfodol.

8.8 Os defnyddwyr y gwasanaethau gofal fydd yn cyfeirio'r galw a'r cyflenwad yn y dyfodol pam dylai'r awdurdod drafferthu?

Mae proses hwyluso'r farchnad yn cydnabod newid yn rôl yr awdurdod lleol: o fod yn ddarparwr gwasanaethau gofal i un lle bydd yn ceisio dylanwadu ar y farchnad, ei datblygu a'i hannog i gyfeiriad darparu gofal safonol.

8.9 Oes angen strategaethau comisiynu amon ni bellach?

'Weithiau' ydy'r ateb i'r cwestiwn yma! Mae'n debyg y bydd strategaeth ar gyfer comisiynu yn ddogfen strategol helaethach, fwy manwl a fydd yn mynegi bwriadau ehangach ynglŷn â chomisiynu ac wedi ei seilio ar asesuadau manwl o'r anghenion a fydd yn cynnig datganiad o'r hyn fydd y galw. Disgrifiad o elfennau allweddol strategaeth yn nhermau ffyrdd yr awdurdod lleol o fynd ati yn ei ymwneud â darparwyr a chyflenwad yw'r datganiad o sefyllfa'r farchnad yn bennaf. Mae'r diagram yn Atodiad 1 yn darlunio'r berthynas rhwng strategaethau comisiynu, datganiadau o sefyllfa'r farchnad a chynlluniau caffael.

8.10 Ym mha fodd dylen ni ddsbarthu datganiadau o sefyllfa'r farchnad?


Mae awdurdodau lleol yn sefydlu mwy a mwy o 'Gylchoedd Trafod i Ddarparwyr' er mwyn gofalu eu bod nhw'n cael trafodaethau uniongyrchol gyda'u darparwyr yn rheolaidd. Dyna fan cychwyn amlwg a defnyddiol ar gyfer dosbarthu copïau o ddatganiadau o sefyllfa'r farchnad. Mae eraill yn paratoi adrannau penodol ar eu gwefannau corfforaethol - lle bydd modd rhoi gwybodaeth am eu bwriadau ynglŷn â chomisiynu, ynghyd â manylion perthynol, megis datganiad o sefyllfa'r farchnad.

9. I gloi

Mae swyddogaeth yr awdurdodau lleol yn newid; a'r awgrym yn eu polisiau cyfredol a'r rhai ar gyfer y dyfodol yw y bydd eu gorchwyl ynglŷn â hwyluso, cefnogi a datblygu'r farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol yn dod yn fwyfwy pwysig. Dyma orchwyl gymhleth, ymestynnol a bydd gofyn bod gan gomisiynwyr fedrau newydd a thechnegau newydd yn gymorth i fynd i'r afael â nhw. Nid paratoi datganiadau o sefyllfa'r farchnad a'u cymhwyso ar gyfer cael darlun clir o'r farchnad – ac yna gweithio ar y cyd â'r darparwyr i roi cymorth iddyn nhw allu ymateb i'r anghenion – fydd yr unig ffordd o gyflawni hyn: eithr yn bendant mae hi'n ei hamlygu ei hun yn un ffordd ddigon buddiol o fynd ati yn barod.



Atodiad 1: Y berthynas rhwng strategaeth gomisiynu, datganiad o sefyllfa'r farchnad a chynllun caffael



Atodiad 2: Deunyddiau enghreifftiol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

Dyma enghraifft o ddatganiad o sefyllfa'r farchnad wedi ei seilio ar fanylion gan nifer o awdurdodau Cymru.

DSM Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer Sir y Ddraig

Crynodeb o'r trywydd mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid comisiynu'n dymuno ei ddilyn ynghyd â diben y ddogfen

Mae'r ddogfen yma ar gyfer darparwyr cyfredol gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol i oedolion a darparwyr y dyfodol. Dyma ddechrau trafodaeth rhwng y cyngor, defnyddwyr y gwasanaethau, cynhalwyr, darparwyr - ac eraill - ynglŷn â'r delfryd ar gyfer marchnadoedd gofal cymdeithasol y dyfodol. Rydyn ni'n ymroddedig yn ein bwriad o hybu marchnad amrywiol, weithgar lle bydd anogaeth a gwobrau i arloesedd ac egni ac un na fydd yn goddef arferion tala.

Rhagfynegiadau'r awdurdod lleol ar y galw fydd yn y dyfodol, gan nodi'r manau a fydd dan bwysau

Bydd newidiadau sylweddol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn y dyfodol. Erbyn 2030 bydd bron 20% o'r boblogaeth dros 65 blwydd oed (*ffynhonnell : Daffodil*) Bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau ar gyfer pobl hŷn fel y bydd poblogaethau lleol a chenedlaethol yn newid yn sgîl datblygiadau'r gwyddorau meddygol, gan olygu bod rhagor o bobl yn byw yn hwy. Fydd adnoddau ariannol y llywodraethau ddim yn cyfateb â'r twf yn y galw a hynny'n golygu bod eisiau ffordd newydd o fynd ati i gynnal gwasanaethau gofal a chymorth. Waeth faint o arian a fydd ar gael, bydd pobl yn hawlio dewis ynglŷn â'r ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion. Roedd canlyniadau arolwg o'r cwsmeriaid yn ddiweddar yn arwyddo bod rhoi cymorth i'r bobl i fyw eu bywydau yn annibynnol ac i barhau i drigo yn eu cartrefi eu hunain yn un o'r blaenoriaethau.

Darlun yr awdurdod lleol o'r sefyllfa gyfredol ynglŷn â'r cyflenwad, gan roi sylw i gryfderau a gwendidau'r farchnad

Mae 73 o gartrefi gofal cofrestredig sy'n rhoi gofal i bobl hŷn yn yr ardal, gan gynnig lleoedd ar gyfer tua 2,900. Y cyngor sy'n rhedeg 4 o'r rhain; a'r gweddill yn perthyn i'r sector annibynnol. Yn ôl systemau gwybodaeth y cyngor, mae'r awdurdod lleol yn prynu tua 60% o gyfanswm y lleoedd ar ran trigolion yr ardal.

Mae 24 o'r cartrefi gofal (â 741 o welyau) yn ateb y gofynion ynglŷn â ffioedd ychwanegol y cyngor i dalu am ofal dryswch meddwl. Mae 80 o welyau Dryswch Meddwl ychwanegol i'w cael yn y ddau gartref gofal mae'r cyngor yn eu gweinyddu.

Mae nifer o'r cartrefi gofal ym mherchnogaeth unigolion ac mae rhai o'r darparwyr hyn wedi mynegi eu bwriad i ymddeol a gwerthu eu heiddo pan fydd y farchnad tai yn gryfach. Rydyn ni wedi nodi eisioes nad yw rhai o'r cartrefi hyn yn hyfyw – oherwydd prinder lleoedd yn bennaf – ond yn ogystal â hynny mae rhai mewn cyflwr gwael oherwydd esgeuluso gwaith cynnal a chadw.

Patrymau arfer y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn eu hybu

Rydyn ni'n meithrin ffordd newydd o roi cymorth i bobl sydd wedi colli gafael ar fedrau bywyd fel eu bod nhw'n adennill eu hannibyniaeth trwy gyfrwng cyfuniad o wasanaethau iechyd a gofal a chymorth cymdeithasol. Rydyn ni wedi arbrofi â hyn yn un o gylchoedd gwledig y sir trwy sefydlu carfan gyfun o weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chadw cartref.

Caiff y clientiaid eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan feddygon teulu neu driniaethwyr mewn ysbytyau – neu eu hail gyfeirio gan ein canolfan alwadau. Does dim rhestrau aros na meini prawf, gan fod y rheiny'n sefydlu rhwystrau o'r dechrau un.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac ar gael am hyd at chwe wythnos. Caiff annibyniaeth y client ei ddatblygu i'r eithaf ac, yn ddelfrydol, fydd dim angen unrhyw gymorth parhaol. Serch hynny, cydnabyddwn y bydd angen cynnal gwasanaeth gofal a chymorth y tymor hir weithiau, yn sgîl cyfnod o adalluogi. Mae'r gwasanaeth yma'n fodd o osgoi treulio amser mewn ysbyty ac yn hwyluso trefnau i adael yr ysbyty yn fuan, fel bo modd i gwsmer ysbyty aciwt osgoi cyfnod mewn ysbyty cymuned.

Fe hoffen ni i ddarparwyr gynnal trefnau adalluogi trwy gynnig gwasanaethau sy'n adlewyrchu:

- Darpariaeth gofal a chymorth integredig sy'n hyblyg er mwyn cyflawni deilliannau da i'r cwsmeriaid.
- Meithrin doniau'r gweithlu, gan gynnwys cyfrannu at drefnau asesu ac adolygu a fydd yn ymateb yn well i anghenion y cwsmeriaid.
- Cysondeb o ran y rhai sy'n rhoi gofal a natur y gofal fel ei gilydd.
- Gweithio yn unol ag ysbryd delfrydau adalluogi i wireddu annibyniaeth.
- Rhoi'r cwsmeriaid mewn cysylltiad â chyfleoedd ehangach yn y gymuned.
- Gweithwyr yn cael eu hyfforddi a gwasanaethau'n cael eu meithrin i allu ymateb i'r cynnydd yn nifer y cwsmeriaid â dryswch meddwl.
- Trefn gludiant a phatrwm prisiau sy'n syml.
- Rydyn ni â'n golwg ar weithio ar y cyd â ddarparwyr gwasanaethau sy'n gallu sefydlu gwasanaethau cost-effeithiol ac o ansawdd da mewn ardal hynod wledig ei natur a'i phoblogaeth yn un wasgaredig.
- Y gallu i gynnal gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Saesneg.

Lefel debygol yr adnoddau yn y dyfodol

- Roedd y gyllideb ar gyfer lles oedolion, iechyd a chymunedau yn 2011/12 5.9% yn is na'r gyllideb oedd ar gael y flwyddyn gynt; mae'r gyllideb sydd ar gael yn 2012/13 4.5% yn is eto; ac yn 2013/14 bydd hi 4.1% yn is unwaith yn rhagor.
- Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gwariodd y cyngor £76 miliwn (clir) gyda 590 o sefydliadau ar wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn 2010/11. Roedd hynny yn 55% o gyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion, 3% yn uwch na'r cyfartaledd yn genedlaethol.
- Fel y gwelwch chi oddi wrth y tabl, fe fuodd cynnydd cymesur yn y gwariant ar ofal preswyl ar gyfer hen bobl. Mae angen inni newid y gyfran yma fel bod mwy o'r gyllideb yn cael ei gwario ar wasanaethau ataliol a thrwy daliadau arian parod a llai o'r gyfran ar ofal cofrestredig.

Y cymorth bydd yr awdurdod lleol yn ei gynnig ar gyfer y patrwm y mae wedi ei nodi

Mae'r cyngor yn dymuno rhoi cymorth i ddarparwyr y sector gwirfoddol, trwy gyfrwng sefydliadau isadeiledd, i ddod at ei gilydd i sefydlu rhagor o gyfalaf cymdeithasol yn ei gylch. Mae dymuniad hefyd i gwtogi ar y gofynion ar ddarparwyr i weithio yn rhan o drefniadau cytundebol cymhleth a'i gwneud hi'n haws i'r ddarparwyr cyfredol - a rhai newydd i ddod – i ddod yn rhan o'r farchnad ac i weithio ar y cyd â ni. Nod y cyngor yw parhau i roi anogaeth i'r bobl leol i gynorthwyo ynglŷn â dylanwadu ar y penderfyniadau comisiynu yn lleol a bydd yn ymgynghori â'r trigolion ar bob achlysur ar gyfer llywio natur y gwasanaethau maen nhw eu heisiau.

Atodiad 3: Enghraifft o ddatganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau i blant

Mae'r enghraifft yma wedi ei chodi o'r ddogfen 'Comisiynu ar gyfer Teuluoedd a chanddyn nhw Anghenion Cymhleth' a baratôdd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn rhan o Raglen Comisiynu Cymorth ar ran Bwrdd Gwella Materion Plant. Mae modd dod o hyd iddo ar wefan <http://ipc.brookes.ac.uk/>

Roedd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy ymgynghori ar gyfer Cymru o'r farn fod yr enghraifft yma'n fuddiol pan fo angen paratoi datganiadau o sefyllfa'r farchnad ynglŷn â gwasanaethau i blant. Mae'n dangos y ffordd ynglŷn â disgrifio:

- Y gynulleidfa ar gyfer datganiad o sefyllfa'r farchnad.
- Dadansoddiad o'r galw.
- Y sefyllfa gyfredol ynglŷn â chyflenwi ar ei gyfer.
- Patrymau arfer dda mae'r comisiynwyr yn dymuno eu hyrwyddo.
- Unrhyw newidiadau arwyddocaol a phenodol mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdano ynglŷn â chynnal y gwasanaeth.
- Faint o arian sy'n debygol o fod ar gael.
- Disgrifiad o'r modd y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth i ddarparwyr i sicrhau'r deilliannau dymunol.

Mae'r enghraifft yma yn rhoi darlun o ddatganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau i blant. Dydy hi ddim yn batrwm o bolisi, eithr caiff ei defnyddio yma i ddangos ffordd y gallai'r canllawiau yma gael eu cymhwyso yn ymarferol.

Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Canolfannau i Blant yn nhref Rhywle-neu'i-gilydd

Mae canolfannau i blant yn angor yn ein darpariaeth ar gyfer teuluoedd bregus a chanddyn nhw blant bach. Rhaid inni feddwl am wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau lleol i gyd i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer pob un o'n plant hyd at 5 oed, gan gynnwys, yn benodol, ein plant mwyaf bregus.

Anelir y datganiad hwn o sefyllfa'r farchnad at:

- cyrff sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau canolfannau i blant – y mathau o wasanaethau rydyn ni'n bwriadu rhoi cymorth ynglŷn â nhw.
- teuluoedd –rydyn ni'n bwriadu mowldio marchnad canolfannau i blant i ddiwallu eich anghenion yn y ffordd orau a bydd anogaeth ichi i gymryd rhan.

Mae'r datganiad yn gam cyntaf i drafodaeth ar ddyfodol marchnadoedd canolfannau i blant. Anelwn at gyflwyno cipolwg clir ar ein ffyrdd arfaethedig o gomisiynu gwasanaethau canolfannau i blant a'n delfryd ynglŷn â'r modd gall gwasanaethau allweddol eraill, megis ymwelwyr iechyd, gwasanaethau lleferydd ac iaith, a gwasanaethau addysg y blynyddoedd cynnar weithio ar y cyd â chanolfannau i blant a'u defnyddio yn ganolbwynt lleol, hanfodol ar gyfer teuluoedd bregus.

Mae'n rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau'r arolwg o ganolfannau i blant a gwasanaethau cyfochrog a gafodd ei gynnal yn ddiweddar ac mae'r rheiny wedi eu rhannu gyda theuluoedd a darparwyr lleol, ein Strategaeth Comisiynu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, ynghyd â'r wybodaeth sydd gyda ni ynglŷn ag arfer dda neu arferion sy'n datblygu. Yn ogystal â hynny, mae'n cadw mewn cof y datblygiadau cenedlaethol mewn perthynas â'r gwasanaethau iechyd yn gyffredinol ynghyd ag adolygiadau cenedlaethol megis Adroddiad Kennedy (2010), Arolwg o Gam Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar (2011), Adolygiad Allen (2011) ac Adolygiad Munro o'r Gwasanaethau Diogelu Plant (2011).


Rydyn ni'n ymroi i ysgogi marchnad amrywiol, weithgar lle bydd anogaeth i arloesedd a gweithredu egnïol – a gwobrwyon – a gweithredu i gael gwared ar arferion gwael. Bydd hyn yn rôl bwysig i Bartneriaeth Materion Plant a Phobl Ifainc. Mae'r cyfan yn rhan allweddol o lunio amgylchfyd lle bydd modd i bob teulu, ac yn arbennig y rhai sy'n amlygu anghenion ychwanegol, i ymgysylltu â gwasanaethau sy'n adeiladu ar gryfderau teuluol a manteisio arny'n nhw - ynghyd â mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau – gan anelu yn y pen draw ar sicrhau deilliannau gwell i blant.

Mae modd i gyrff sydd â diddordeb mewn darparu canolfannau i blant i ddod i wybod am ein bwriadau ni - yn ein rôl yn brynwyr gwasanaethau - ynghyd â chael manylion am ein delfryd ynglŷn â'r ffyrdd y gallai gwasanaethau ymateb i'r ymgyrch genedlaethol dros ganolbwyntio dwysach ar y teuluoedd mwyaf bregus.

Y galw tebygol yn y dyfodol ynghyd â'r manau a fydd dan bwysau

Bydd cynnydd araf yn nifer y plant 0 - 5 oed yn ein poblogaeth dros y 10 - 15 mlynedd besaf.

Y boblogaeth dan 5 oed



Daw'r teuluoedd sydd wedi eu cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer manteisio ar wasanaethau canolfannau i blant o amrediad o wahanol gefndiroedd ac mae rhai canolfannau yn llwyddo i ddenu rhagor o deuluoedd bregus o blith amrywiaeth ehangach o gefndiroedd. Serch hynny, mae gogwydd yn gyffredinol o blaid rhieni a allai ymdopi heb gymorth ychwanegol; a dydyn ni ddim yn llwyddo i ysgogi digon o alw am wasanaethau sydd wedi eu hanelu at roi cymorth i'r teuluoedd mwyaf bregus, e.e.:


- teuluoedd â phlant a chanddyn nhw anabledau.
- y rhieni ifancaf - y rhieni sydd yn eu harddegau yn arbennig.
- teuluoedd lle mae'r rhieni â thrafferthion afiechyd y meddwl.
- teuluoedd lle mae'r rhieni yn goryfed neu'n camddefnyddio cyffuriau.
- teuluoedd lle mae trais yn y cartref.

Mae galw mawr am agweddau allweddol ar wasanaethau canolfannau i blant, megis dosbarthiadau ar swyddogaethau rhieni; yn achos y rhain eto, does dim digon o deuluoedd a chanddyn nhw anghenion ychwanegol yn cael y cymorth angenrheidiol i'w mynychu.

Bydd teuluoedd – gan gynnwys teuluoedd bregus sy'n mynychu canolfannau i blant – yn teithio; dydyn nhw ddim o angenrhaid yn mynychu'r ganolfan leol.

Ymhlith y wardiau sydd fwyaf difreintiedig ac yn amlygu'r nifer fwyaf o ddangosyddion teuluoedd bregus mae: Trefun, Dwydre a Thriphorth er bod pocedi o amddifadedd a theuluoedd bregus i'w cael ym mhob un o'r chwe ward sydd gyda ni.

Amddifadedd yn y fwrdeistref



Er bod ein cyfrannau ynglŷn ag arferion bwydo ar y fron, at ei gilydd, yn uchel - o'u cymharu â'r darlun yn genedlaethol - mae'r cyfrannau ar gyfer cylchoedd bregus, megis mamau ifainc iawn, yn parhau yn ystyfnig o isel.

Mae teuluoedd bregus yn ymgysylltu â Charfan o Gwmpas y Teulu yn lleol, ond mae'r rhan fwyaf yn blant hŷn ac yn bobl ifainc. Ychydig yw'r galw ar drefniadau Carfan o Gwmpas y Teulu yn achos teuluoedd â phlant dan 6 oed. Does dim cofnodion cadarn ynglŷn ag i ba raddau mae Carfan o Gwmpas y Teulu yn cyrchu gwasanaethau canolfannau i blant ac ychydig iawn o gyswllt sydd rhwng y ddau gylch.

Mae'r galw am wasanaethau arbenigol ar gyfer plant anghenus dan 5 oed yn dal i gynyddu'n araf mewn manau, ond heb fod i'r un graddau ag ardaloedd eraill.

Amlygodd canlyniadau arolwg a gafodd ei gynnal yn ddiweddar, ymhlith rhieni canolfannau i blant, bod nifer o'r defnyddwyr cyfredol yn fodlon ar y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig; ond bydden nhw'n hoffi mwy o hyblygrwydd o ran oriau, gan gynnwys rhagor o weithgareddau gyda'r nos a thros y Sul, rhagor o gylchoedd ar gyfer y tadau, derbynfydd mwy croesawgar a rhagor o drefnau cymorth wyneb-yn-wyneb i unigolion lle bo hynny'n briodol.

Y sefyllfa gyfredol o ran cyflenwi

Ar hyn o bryd rydyn ni'n ariannu canolfan i blant ym mhob un o'r chwe ward sydd gyda ni. Mae economi'r ddarpariaeth yn un gymysg, gyda'r cyngor yn cynnal rhai canolfannau a gwasanaethau a rhai'n cael eu cynnal gan gylchoedd gwirfoddol a chymunedol.

Bydd lefel 'y cynnig' a'r math o weithgareddau yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig y pethau sylfaenol, megis darpariaeth addysg feithrin, cylchoedd mam a'i phlentyn, cyngor ar swyddi a chymorth cyffredinol i deuluoedd. Serch hynny, dydy pob canolfan ddim yn cynnig rhaglenni ar rôl rhieni sydd wedi eu sylfaenu ar dystiolaeth – rhywbeth, fel y gwyddon ni, sy'n ganolog i gamau ymyriad effeithiol – na chymorth dwys wedi ei deilwra ar gyfer teuluoedd sydd wedi eu pennu yn rhai bregus. Does dim gwasanaethau estyn braich sydd â'r modd i dargedu teuluoedd a all fod yn ei chael hi'n anodd i ofyn am gymorth a'u cynnal ychwaith.

Ymhlith y gwasanaethau mae'r canolfannau i blant mwyaf llwyddiannus yn eu darparu mae cyfuniad o wasanaethau agored a deniadol, megis darpariaeth feithrin, tylino babanod a chylchoedd mam a'i phlentyn a'r canlynol yn rhan o'u darpariaeth:

- rhaglenni ar rôl rhieni sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth – tebyg i rai Webster Stratton.
- cylchoedd y tadau.
- cylch trafod y rhieni.
- gwasanaethau estyn braich.
- cymorth arferion bwydo ar y fron.
- moddion cyrchu gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau bwrw bol a gwasanaethau cymorth ynglŷn ag afiechyd meddwl a chyngor ar faterion tai a dyledion.
- cylchoedd ar gyfer rhieni ifainc.
- cymorth wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer teuluoedd.
- gweithgareddau cymunedol.
- gweithgareddau ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.

Patrymau ymarfer y byddwn ni'n eu hannog a'u cynorthwyo

Rydyn ni'n dal gafael ar ymrwymiad i gomisiynu gwasanaethau canolfannau i blant, gan ganoli'r adnoddau ar fröydd penodol lle mae'r amddifadedd a'r anghenion mwyaf. Bydd angen i ganolfannau i blant barhau i gynnal gwasanaethau 'craidd' ac yn eu plith:

- arweinyddiaeth egnïol, llawn gweledigaeth.
- derbynfydd croesawgar, ynghyd â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth hawdd eu cael.
- gweithio ar y cyd â theuluoedd a rhoi rhan i'r rhieni yngŷn â chynllunio'r ffordd mae'r gwasanaethau'n cael eu cynnal.
- gwasanaethau a fydd yn hyrwyddo amrediad o ddeilliannau da yn hanes y plant – a hynny o safbwynt y plentyn.
- cyfrannu at gynnal gwasanaeth gofal o ansawdd da i blant yn lleol.
- gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi eu targedu ar deuluoedd unigol, cylchoedd trafod, a threfnau estyn braich.

Newidiadau penodol rydyn ni'n anelu at eu cyflawni dros y cyfnod 2012–15

1. Cefnu ar drefnau canolbwyntio ar gynyddu cofrestru achosion ymhlith teuluoedd â phlant dan 5 oed yn gyffredinol er mwyn cynyddu nifer y plant bregus a'u teuluoedd sy'n dod o hyd i gymorth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, gweithredu'n hyblyg a hynny ar sail y dystiolaeth. Ymhlith y cylchoedd penodol i'w targedu mae:

- teuluoedd lle mae materion gwasanaethau tai, dyledion, afiechyd meddwl y rhieni, camddefnyddio cyffuriau, anabledd, neilltuo oddi wrth gymdeithas a/neu trais yn y cartref – neu gyfuniad o'r rhain – yn andwyo, neu'n debyg o andwyo, gallu rhieni.
- y rhieni mwyaf ifanc, gan gynnwys y rhai sydd yn eu harddegau.
- tadau.
- plant a chanddyn nhw anabledau – yn enwedig y rhai hynny sy'n amlygu trafferthion ymddygiadol neu rai lleferydd ac iaith.

Does dim rhaid mai gweithwyr canolfannau i blant yn unig fydd yn cynnal y gwasanaethau hyn. Bydd angen eu sefydlu ar y cyd â gwasanaethau lleol eraill fydd yn cael eu targedu a bod yn gyflenwol iddyn nhw – gan gynnwys y rhai bydd yr awdurdod lleol yn eu comisiynu i roi cymorth i blant anghenus a gwasanaethau iechyd cymuned. Dylai'r gwasanaethau ganolbwyntio ar gynyddu gwytnwch y plant ac atal neu liniaru ffactorau risg gan gynnwys rhai o gyfeiriad y rhieni neu'r amgylchfyd. Bydd gofyn am gynllunio da ynghyd â'u cynnal am gyfnod digonol i allu gwneud gwahaniaeth.

2. Ehangu pellach ar weithgareddau estyn braich – gan gynnwys trefnau ymgysylltu, ar sail y dystiolaeth, â rhaglenni cymorth a gafodd eu cynllunio ar gyfer teuluoedd bregus. Bydd angen i'r gwasanaethau hyn, eto, fod yn gyflenwol i'r lleill, yn hytrach na'u dyblygu- gan gynnwys gwasanaethau iechyd cymuned.
3. Canolbwyntio dwysach ar fedrau rhieni, gan gynnwys rhaglenni cymorth i unigolion a chylchoedd, wedi eu seilio ar dystiolaeth, a'r rheiny wedi eu llunio ar gyfer hyrwyddo cysondeb, galluedd a symbyliad rhieni ynglŷn â magu eu plant.
4. Ehangu pellach ar ganolfannau i blant i fod yn ganolbwynt gwasanaethau eraill, gan gynnwys, yn arbennig, gwasanaethau ymwelwyr iechyd, triniaeth lleferydd ac iaith a bydwreigiaeth.
5. Hwyluso gweithgareddau cyffredinol dan arweinyddiaeth rhieni neu'r gymuned a rhoi ystyriaeth i drefniadau talu ar gyfer darpariaeth sy'n agored i bawb – er mwyn gofalu bod y gwasanaethau hyn yn parhau yn hyfyw ac yn gweithredu yn bont i gyrchu gwasanaethau mwy arbenigol petai angen.
6. Newid agwedd o ran manteisio i'r eithaf ar y lle sydd mewn canolfan i gynnal amrediad o weithgareddau sy'n berthnasol i blant a phobl ifainc yn ogystal â'r gymuned ehangach. Bydd hyn golygu ysgogi'r bobl ar lawr gwlad, gan gynnwys cylchoedd dan arweiniad rhieni neu unigolion i ddefnyddio'r lle yn greadigol - ynghyd â rhwydweithiau cymorth i rieni.
7. Canolbwyntio craffach ar hwyluso a chynnal trefnau integredig hanfodol a fydd yn gymorth i deuluoedd bregus i gamu ymlaen yn gyfforddus trwy'r gwasanaethau ac o un i'r llall – e.e Fframwaith Asesu Cyffredin, Carfan o Gwmpas y Teulu, gweithgareddau proffesiynol arweiniol neu allweddol. Weithiau gallai hynny olygu mai gweithwyr canolfan i blant a fydd 'yn dal y baton' a thrwy hynny yn arwain y trefnau a'r gweithgareddau hynny.

Hoffen ni ymchwilio, hefyd, i ba raddau gallai canolfannau i blant ddatblygu yn ganolbwynt ar gyfer addysgu gweithluoedd a gwella parhaus ym maes gwasanaethau ar gyfer plant bach iawn – a bydden ni'n croesawu sylwadau pawb ynglŷn ag ymarferoldeb hyn.



Yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol

Mae ein hincwm oddi wrth y llywodraeth ganol ar gyfer gwasanaethau canolfannau i blant yn gostwng o £2 miliwn y flwyddyn dros y cyfnod 2010–2011 i £1.8 miliwn y flwyddyn dros y cyfnodau 2011–12 a 2012–15. Does dim sicrwydd ynglŷn ag arian o du'r llywodraeth ganol wedi hynny.

Yn y gorffennol rydyn ni wedi atgyfnerthu'r cymorthdal oddi wrth y llywodraeth ganol ar gyfer gwasanaethau canolfannau i blant trwy gyfraniad o £600,000 y flwyddyn gan yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cyfochrog i deuluoedd. Yn unol â'r gostyniadau yn gyffredinol gan y cyngor, bydd angen inni gwtogi ar y gwariant ar wasanaethau cymorth cysylltiedig i deuluoedd y canolfannau i blant i £400,000 y flwyddyn am y cyfnod 2012–13.

Fe fydd gyda ni, felly, rhyw £2.2 miliwn i'w wario ar wasanaethau canolfannau i blant yn y flwyddyn 2012–13, o gymharu â £2.4 miliwn yn 2011–12 a £2.6 miliwn yn 2010–11.

Mae angen inni ofalu bod yr arian yma'n gweithio mor galed ag y bo modd dros y cyfnod nesaf, a'n bod ni'n manteisio i'r eithaf ar y cyfan o'r adnoddau sydd ar gael yn lleol i warchod cymhwysedd, effeithiolrwydd a chynladwydd y gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwnnw, dymunwn flaenoriaethu ein gwariant uniongyrchol ar:

- gweithgareddau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn arbennig felly yn achos y teuluoedd mwyaf bregus, e.e. canolfannau'n cynnal dosbarthiadau i hyfforddi rhieni.
- trefnau ymgysylltu gwell â theuluoedd bregus, i roi cymorth iddyn nhw i allu cyrchu gwasanaethau canolfannau i blant ac elwa arny'n nhw.
- gweithgareddau sy'n tynnu gwasanaethau eraill i mewn i roi cymorth i deuluoedd bregus, megis Carfan o Gwmpas y Teulu, gwasanaethau arwain proffesiynol neu gyfraniadau at Carfan o Gwmpas y Teulu, cyfleusterau ar gyfer gweithwyr teithiol y mae angen iddyn nhw gwrdd â theuluoedd ynghyd â chyfleoedd clinigau-galw-heibio ar gyfer arbenigwyr ym maes iechyd cymuned.

Rhagwelwn y bydd angen i ganolfannau i blant i ddenu incwm o nifer o ffynonellau eraill a bod cyfleoedd gwirioneddol iddyn nhw i wneud hynny a'i gynyddu. Dyma rai ffynonellau:

- teuluoedd a fo'n manteisio ar gynigion cyffredinol, megis cylchoedd meithrin, mam a'i phlentyn, tylino babanod ac addysgu rhieni.
- y gymuned ehangach, e.e. trwy gynnig hurio ystafelloedd i gylchoedd cymuned.
- cylchoedd a sefydliadau proffesiynol, e.e., trwy gynnal cyrsiau ar gyfer cylchoedd o ymarferwyr mewn perthynas â meysydd sy'n ymwneud ag arbenigedd canolfannau i blant, megis:
 - meithrin medrau a gwytnwch teuluoedd.
 - ffyrdd o ymgysylltu â theuluoedd y mae'n anodd dod o hyd iddyn nhw a chadw eu diddordeb yn ddigon hir i gael rhyw effaith.
 - pawb o'r gweithwyr proffesiynol yn gwella safon cyfathrebu a meithrin iaith y blynyddoedd cynnar – pwysleisio'r arwyddocâd a chynnig technegau i gynnal y datblygiad.
 - cymhwyso technegau a threfnau lleol i ddibenion cysondeb ac effeithiolrwydd o ran adnabod yr arwyddion cynnar ynglŷn ag anghenion a gweithredu ar hynny.

Yr hyn sydd gyda ni i'w gynnig i hyrwyddo arloesedd a newid arferion

Y cymorth byddwn ni'n ei roi i deuluoedd

Manylion a chyngor ynglŷn â gwasanaethau canolfannau i blant, gan gynnwys pa rai fydd yn dod i ben neu bydd rhaid talu amdany'n nhw, ynghyd â'r rhesymau am y newid(iadau).

Gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau y gallan nhw ddisgwyl gan bob canolfan i blant a beth fydd y gost.

Cymorth i sefydlu cylchoedd dan arweinyddiaeth rhieni neu aelodau o'r gymuned ar gyfer trefnu gwasanaethau mewn canolfannau i blant a dod o hyd i arian ar eu cyfer - gan gynnwys gweithgareddau ar gyfer plant anabl, cymorth cymheiriad ar gyfer rhieni bregus ac achlysuron cymdeithasol.

Gwybodaeth a chyngor i deuluoedd unigol ynglŷn â chyrchu gwasanaethau neu arian ar gyfer gwasanaethau – y cylchoedd bregus yn arbennig; e.e. darpariaeth addysg feithrin, gwyliau seibiant byr a chymorthdaliadau penodol trwy gyfrwng ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

I roi cymorth i wasanaethau integredig effeithiol, byddwn ni a'r Cylch Comisiynu Clinigol yn parhau i rannu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion teuluoedd a chymunedau bregus ar draws y sir.

Byddwn ni'n rhoi anogaeth i'r asiantaethau statudol i ddefnyddio adeiladau'r canolfannau i blant yn ganolfannau ardal ar gyfer cyfarfod â theuluoedd, arbenigwyr a charfannau ac i ddarparu cyrsiau.

Byddwn ni'n cefnogi trefniadau Carfan o Gwmpas y Teulu mewn perthynas â theuluoedd bregus y mae gyda nhw fwy o anghenion nag y gall un asiantaeth ymdopi â nhw ac a fyddai'n elwa yn sgîl gweithredu fel hyn.

Y cymorth byddwn ni'n ei gynnig i ddarparwyr

Proses dryloyw i gyflwyno ceisiadau am gytundebau ar gyfer gwasanaethau canolfannau i blant o fis Ebrill 2012, gan gynnwys : rhan i ddarparwyr ynglŷn â pharatoi manylebau ar gyfer gwasanaethau bydd yr awdurdod lleol yn eu hariannu; prosesau a chytundebau caffael wedi eu seilio ar ddeilliannau; ynghyd â rhoi cytundebau dros gyfnod o dair blynedd (2012 tan 2015).

Yn achos pob canolfan i blant sy'n cael ei chomisiynu: un taliad i'w wario ymhen hyn a hyn o amser a chyngor cyflenwol ar gyfer sefydlu, neu ddatblygu pellach, agweddau ar 'y cynnig' a all fod heb eu mirienio ar y pryd – e.e. hyfforddiant, gwaith arweiniol proffesiynol Carfan o Gwmpas y Teulu, addysgu rhieni a gwasanaethau estyn braich.

Cyngor uniongyrchol, cymorth a hyfforddiant ein Huned Materion Busnes ac Arloesi i bob un o'n ddarparwyr i bennu ac ehangu ffynonellau incwm cyfreithiol eraill, gan gynnwys teuluoedd, y gymuned ehangach a chylchoedd neu sefydliadau proffesiynol ac i baratoi eu cynlluniau busnes.

Marchnata uniongyrchol a gwasanaeth brocer ynglŷn â chynigion canolfannau i blant a hynny'n cynnwys gwasanaethau mae rhaid talu amdany'n nhw, e.e trwy gyfrwng ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (neu ein partner-sefydliadau sy'n ymddiddori mewn materion camau ymyriad cynnar a gwasanaethau ataliol ar gyfer teuluoedd.

Rhoi gwybodaeth i'r defnyddwyr cyfredol ynglŷn â'r newidiadau yn y gwasanaethau ar draws ardal yr awdurdod a'r rhesymau am hynny.

Parhau i roi cyfleoedd i weithwyr allweddol canolfannau i blant - gan gynnwys arweinwyr canolfannau i blant – i fanteisio ar ein rhaglen ni ar gyfer datblygu'r gweithlu .

Eitem 3.1

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 13 Mai 2015**

Amser: **09.17 – 12.20**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/3009>

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees AC (Cadeirydd)
Alun Davies AC
Janet Finch–Saunders AC
John Griffiths AC
Elin Jones AC
Darren Millar AC
Gwyn R Price AC
Lindsay Whittle AC
Kirsty Williams AC

Tystion:

Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Nicola Evans, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Dr Rosanne Palmer, Cynghrair Henoed Cymru
John Moore, My Home Life Cymru
Lorraine Brannan, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'
Pamela Cook, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'
Kelvyn Morris, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'
Robin Moulster, Rheolwr CGCP Cymru, Cymdeithas
Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Cymru

Staff y Pwyllgor:

Helen Finlayson (Ail Glerc)

Catherine Hunt (Ail Glerc)
Sian Giddins (Dirprwy Glerc)
Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Amy Clifton (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Lynne Neagle.

2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 9

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- copi o'i llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi ei barn ar y Bil; ac
- astudiaethau achos o'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar bobl hŷn yng Nghymru.

3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 10

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

3.2 Cytunodd Dr Rosanne Palmer i ddarparu nodyn ynghylch:

- amheuon un o aelodau Cynghrair Henoed Cymru ynghylch ymestyn cofrestru i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan; ac
- Safbwynt Cynghrair Henoed Cymru ar sicrhau effeithiolrwydd ariannol yn ymwneud â defnyddio arolygwyr lleyg.

3.3 Cytunodd y tystion i ysgrifennu at y Pwyllgor i rannu eu barn ynghylch a ddylai'r Bil nodi y dylai'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau comisiynu a rhoi contractau i gwmnïau preifat gael eu hatal rhag gweithio i gwmnïau o'r fath o fewn cyfnod penodedig.

4 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 11

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn sut y byddai'r Bil yn rhoi ystyriaeth i adolygiad annibynnol Dr Margaret Flynn o Ymgyrch Jasmine.

5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 12

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Cofnodion cyfarfod 23 Ebrill 2015

6.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill.

6.2 Cofnodion cyfarfod 29 Ebrill 2015

6.2a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill.

6.3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan Gynghreiriau Ailalluogi Cymru, Cynhalwyr Cymru a Gofal Cymdeithasol a Lles

6.3a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Gynghreiriau Ailalluogi Cymru, Cynhalwyr Cymru a Gofal Cymdeithasol a Lles. Nododd fod y wybodaeth hefyd yn cael ei chymeradwyo gan Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru.

6.4P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi: gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau

6.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth:

- cytunodd i ysgrifennu at y Prif Swyddog Meddygol yn gofyn iddi egluro ei disgwyliadau o ysbytai unigol wrth gymhwyso'r canllawiau proffesiynol ar drin babanod cynamserol iawn a gofalu amdanynt;
- gofynnodd am bapur yn amlinellu'r dewisiadau ar waith ar y mater hwn yn y dyfodol, i'w ystyried fel rhan o drafodaeth blaenraglen waith yn y dyfodol; ac
- cytunodd i roi gwybod i'r Pwyllgor Deisebau am benderfyniad y Pwyllgor.

6.5 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd

6.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd.

6.6 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 21 Mai 2015

7. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

8 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ystyriodd y dystiolaeth a dderbyniwyd.

9 Rheoliadau mewn perthynas â chymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: trafod y dull o weithredu

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar reoliadau mewn perthynas â chymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chytunodd arno.

Eitem 3.2

National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[Health and Social Care Committee / Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

[Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill / Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Evidence from Carers Trust Wales – RISC AI 03 / Tystiolaeth gan
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru – RISC AI 03

Note for Health and Social Care Committee

Registration of the Social Care workforce – reservations of Carers Trust re implementation.

Although Carers Trust Wales supports the registration of the social care workforce (and the professionalisation that would hopefully accompany this) our concerns are around implementation, and the potential impact on small, third sector services that registration may have.

Small, third sector services prioritise training and quality care delivery, investing any surplus into the organisation. The current financial climate and the current approach to commissioning have made it increasingly difficult for small, third sector services to remain viable as the ‘unit cost’ for an hour of care has been increasingly squeezed.

Our concerns over registration of the workforce is that the costs and administrative burdens of registration may have a disproportionate impact on these small, third sector, quality-orientated services. This is particularly worrying given the new duties in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 to promote the use of social enterprises and the third sector. That is why we feel it is crucial that if registration of the wider workforce is introduced, that the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill also considers how it may improve and safeguard the commissioning process at the same time.

We also have some concerns over how best to safeguard staff, when there is a register of the workforce, from an organisation shifting responsibility for the quality of care onto individuals rather than the organisation as a whole

Note for Health and Social Care Committee Commissioning of Services

Kirsty Williams' point:

The older person's commissioner was quite devastating in her evidence this morning, I felt, about the inadequacies of the provision within the Bill, as it currently stands, around commissioning and the role of commissioners. I wonder whether you have any views on whether you think commissioning is adequately addressed within the Bill. I also wonder whether you have a view on whether the Bill should explicitly say that those people who are involved in commissioning and awarding contracts to private companies, then should be prevented from moving from a commissioning role to employment within one of those companies over a certain period of time. So, for instance, Ministers would have a cooling off period before they could move into a particular role, but it seems to me that there is nothing to stop somebody working in a local authority today, handing out a very valuable contract tomorrow, and then working for that company the following week.

Response from John Moore, Age Cymru

- We need to have clear guidance on commissioning, rules and standards. Commissioning is not a regulated profession and I don't think it needs to be, but there should be a code of practice. Also, commissioning officers/ managers should be expected to work toward a relevant qualification.
- In a code of practice or even in individual contracts with officers/ managers, it could be stated that there was a clause that covered scenarios such as stated above.
- In the contract with providers, this could also be addressed. This would be harder to implement than the point above.
- Lastly, Kirsty mentions private companies. I don't think that it should be limited to that but should cover all providers.

Note for Health and Social Care Committee
Age Alliance Wales' views on ensuring the cost effectiveness of lay inspectors



Age Alliance Wales believes that lay inspectors have an important role in ensuring inspections of care homes fully consider all aspects of an individual's daily life and care. Lay inspectors bring different experiences and can offer a different perspective upon the quality of life and the quality of care that is being provided. Managed well, lay inspectors can also enable a more effective, legitimate and transparent inspection regime.

We are concerned by CSSIW's claim that lay inspectors are not cost effective. If co production is to be enacted, investment has to be made to support the engagement of all stake holders. If lay inspectors are to be engaged, AAW believes it should be on the basis of evidence based good practice and not solely on cost. Lay inspection is not cost neutral. There will always be a cost to recruiting, training and maintaining lay inspectors engaged and up to date with knowledge and skill.

Lay inspector projects do not come for free and agencies have to invest in the staff culture and new/different inclusive processes, otherwise initiatives can fail and become discredited for the wrong reasons.

The All Wales Forum of Parents and Carers (AWF) did a partnership pilot with CSSiW two years ago to explore the potential of using family carers and individuals with learning disabilities as 'independent visitors' to support the inspection process. Age Cymru was also involved in this project. The aim was to consider the areas of quality of life and control. The project was a success as it wasn't overly structured and aimed to compliment the services of the main inspectorate body.

Learning from this project shows that lay inspector initiatives are more likely to succeed if organisations move towards a partnership approach that engages citizens at a voluntary level (plus travel expenses etc), rather than pushing for full reinstatement of lay inspectors with the full costs attached. (For more information, contact Kate Young, Director of All Wales Forum for parents and carers; [REDACTED]).

The AWF is currently in discussions with CSSiW and HiW to enable real engagement of families in the recently commissioned review of all learning disability registered services – they are hoping this can resurrect the positives from the joint pilot project and also help pave a way for ongoing joint working.

AAW would like to draw the attention of the Committee to organisations who currently use lay inspectors and greatly value their contribution:

Care Quality Commission – Experts by Experience

<http://www.cqc.org.uk/content/experts-experience-procurement-0>

Estyn – Lay Inspectors

<http://www.estyn.gov.uk/english/about-us/working-for-estyn/inspector-roles/>

Age UK – Experts by Experience

<http://www.ageuk.org.uk/professional-resources-home/services-and-practice/care-and-support/experts-by-experience/>

Older People’s Commissioner – Social Care Rapporteurs

http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/14-11-10/Too_many_older_people_living_in_care_homes_in_Wales_have_an_unacceptable_quality_of_life_says_Commissioner.aspx#.VWcYd03bL5o

Health Inspectorate Wales

<http://www.hiw.org.uk/home>

Dimensions Cymru

Contact - Ceri Meloy; [REDACTED]

National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[Health and Social Care Committee](#) / [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

[Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill](#) / [Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Evidence from British Association for Adoption & Fostering – RISC AI 06
/ Tystiolaeth gan Gymdeithas Brydeinig Mabwysiadu a Maethu – RISC AI 06

28th May 2015

BAAF Cymru Caerdydd

7 Ty Cleeve
Cilgant Lambourne
Llanisien
Caerdydd CF14 5GP

Ffôn [REDACTED]

Ffacs [REDACTED]

E-bost [REDACTED]

BAAF Cymru Cardiff

7 Cleeve House
Lambourne Crescent
Llanishen
Cardiff CF14 5GP

Tel [REDACTED]

Fax [REDACTED]

Email [REDACTED]

BAAF Cymru Y Rhyl

W2
Canolfan Busnes Morfa Clwyd
84 Ffordd Marsh
Y Rhyl
Sir Ddinbych LL18 2AF

Ffôn [REDACTED]

E-bost [REDACTED]

BAAF Cymru Rhyl

W2
Morfa Clwyd Business Centre
84 Marsh Road
Rhyl
Denbighshire LL18 2AF

Tel [REDACTED]

Email [REDACTED]

David Rees AM
Chair, Health and Social Care Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Mr Rees

Thank you for your request to BAAF Cymru for a view about whether it would be appropriate for foster carers to be registered with, and regulated by, Social Care Wales.

BAAF is a national charity with a membership base that includes all 22 Local Authorities in Wales, as well as many Independent Fostering Providers. We are aware that the issue of registering foster carers has been muted in the past and have therefore had previous discussions within our wider organisation and informally with Fostering Service providers.

We understand that some benefits may come from registration of foster carers e.g. if a carer approaches another fostering service provider a central register would quickly clarify that a previous termination has occurred. However our belief is that the situation is a complex one because of the existing regulatory framework, and the overlap of roles, responsibilities and processes that a second tier of registration needs to be carefully considered and understood.

Existing regulations (The Fostering Services (Wales) Regulations 2003) impose a clear duty on fostering services to maintain an up to date register of foster carers approved by them, their terms of approval and the details of children who are placed.

They also prescribe a clear approval, review and termination process involving the Fostering Service Provider and the Independent Review Mechanism (Independent

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg – Correspondence in either Welsh or English is welcomed



Review of Determinations Adoption and Fostering (Wales) Regulations 2010). At present there is oversight and scrutiny of these processes by the agency's Fostering Panel and via annual inspection by CSSIW. In addition, notifications about foster carers may be made to the Disclosure and Barring Service in the relevant circumstances.

The regulatory framework for Fostering Services is backed up by National Minimum Standards, and guidance about processes in the event of allegations from Welsh Government and within the All Wales Child Protection Procedures.

If Social Care Wales was to take a role in the registration and regulation of foster carers there would be a considerable overlap between the regulatory requirements and processes as outline above and any new responsibilities assumed by Social Care Wales in this arena.

We therefore believe it would be critical to fully explore and understand how any proposed registration process would dovetail with the existing processes and the duties, roles and responsibilities that are currently allocated to the Fostering Service Provider, their foster panel and agency decision maker, as well as the IRM and CSSIW.

Current arrangements for dealing with poor practice are well embedded and contain measures for external scrutiny if good practice is in place. Foster carers registration is annually reviewed, foster panels have the capacity to quality assure the work of the fostering service provider, and CSSIW inspects on an annual basis.

Our concern would be that if the inter- relationship between any new regulations and the existing structures are not well thought through, there could be unintended consequences, loopholes or delays that could be created by this overlapping of roles.

For example, at what point would a central register be notified of de registration – when foster panel makes its recommendation? When the Agency decision maker makes their decision, or at the end of the 28 day appeal period that follows etc. How would the panel deregistration procedure, the IRM process and the Social Care Wales regulatory process work together in cases where issues were being looked at by all three bodies; which process would take precedence ; how would timescales work; what if multiple appeals were made to different parties in the process.

It's unclear to BAAF what the benefits from these changes would be, who they would be for and whether they would outweigh the additional work that could be created.

BAAF is also anxious that at this time of cuts to services there are no additional unnecessary administrative burdens placed on Local Authorities. Since the requirements for Fostering Services to keep a register of foster carer extends further than simply who is approved, they would by necessity need to keep their own up to date list, as well as administering a central register. As processes currently stand we believe that there would be unnecessary duplication of time and effort.

If this proposal were to be considered, the issue of foster carers living in Wales who are registered with non-Welsh fostering services would also have to be thought through.

In summary, our concerns stem from

- Creating unnecessary duplication of effort and cost when the benefits for young people seem uncertain. The case for change needs to be developed to provide evidence from across the multi -agency network that interfaces with foster care that this change is required, and should be prioritised, in the face of other competing demands for time and resources. There may well be other more urgent priorities to consider improving services for looked after children and young people.
- The current process for registration, reviews and termination of approval is well embedded, well understood and has levels of internal and external scrutiny within the current framework. There may well be improvements that could be made about improving practice within the current arrangements and BAAF would be happy to be a part of any work that looks at this.
- In order to dovetail these changes with existing process there would have to be a detailed analysis of current and proposed processes, and their inter relationship. It is our view that introducing registration and regulation by Social Care Wales would require:
 - a reframing of legislation and regulations
 - training in new processes for Fostering Services and foster carers
 - a revision of the current inspection framework
 - additional expenditure to undertake the administration and implementation of this structure (within Social Care Wales and Fostering Service Providers).
- The additional administrative burden that we believe could be placed on Fostering Services, specifically within Local Authorities and they have no mechanism to raise revenue to cover these additional costs.

We are aware that there are some tentative discussions about the benefits of creating of a National Framework for Fostering. If there is an appetite in Wales for the central registration of foster carers, which we believe still has to be established, then this proposal might better sit within a more holistic analysis of how Fostering Services can be better delivered at a national, regional and local level.

Yours sincerely

Wendy R Keidan

Wendy Keidan
Director, BAAF Cymru
British Association for Adoption and Fostering

Eitem 3.3

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/0659/15

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

Annwyl David,

14 Mai 2015

Ar 19 Mawrth, ymatebais i'ch llythyr dyddiedig 20 Chwefror ynghylch Ymchwiliad y Pwyllgor i'r Gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru.

Fel rhan o'r ymateb hwn, cytunais i ysgrifennu atoch eto yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cynnig Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol i ymestyn isafswm yr amser hyfforddi ym mhob rhaglen ymarfer cyffredinol o dair i bedair blynedd, gydag o leiaf 24 mis mewn gofal sylfaenol.

Yn ystod trafodaethau y DU gyfan ynghylch y cynnig hwn, cyhoeddodd yr Athro Syr David Greenaway adroddiad yn deillio o'i adolygiad i addysg feddygol ôl-raddedig, sef Datblygu Hyfforddiant – Sicrhau Dyfodol Gofal Rhagorol i Gleifion.

Daw'r adolygiad hwn yng nghyd-destun newid yn anghenion cleifion ledled y DU a'r angen o ganlyniad i fynd i'r afael â salwch mwy cronig a chleifion â chyflyrau lluosog a chymhleth. Mae hyn o ganlyniad i ffyrdd afiach o fyw a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion er mwyn sicrhau bod gan feddygon y sgiliau, y cymwyseddau a'r galluoedd priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i daro cydbwysedd rhwng meddygon sy'n cael eu hyfforddi i ddarparu gofal cyffredinol a meddygon sy'n cael eu hyfforddi i ddarparu gofal mwy arbenigol. Mae cefndir a nodau'r adroddiad yn cyd-fynd â gofynion GIG Cymru y dylai'r gweithlu fod yn ddigon hyblyg i addasu i newid o safbwynt diogelwch cleifion, gwella parhaus ac urddas a pharch sydd wrth wraidd y gwasanaeth a ddarperir.

Cafodd yr adroddiad ei groesawu'n gyffredinol gan y Gweinidogion Iechyd ar draws y DU, ond cytunwyd y dylid gwneud rhagor o waith i ystyried sut gellir datblygu'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymarferol. Cytunwyd y dylid ystyried y mater o flwyddyn ychwanegol o hyfforddi ar gyfer meddygon teulu fel rhan o waith ehangach Grŵp Llywio Datblygu Hyfforddiant y DU o ystyried mai'r cynnig yn Adroddiad Greenaway oedd ffocws ehangach ar hyfforddiant cyffredinol.

Ymddengys i mi ei bod yn gwbl briodol bod unrhyw newidiadau a gynigir mewn perthynas â'r agenda addysg a hyfforddi yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd i sicrhau bod y system yn gweithio yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na cheisio gwneud newidiadau ar eu pen eu hunain.

Fe wyddoch ers fy ymateb dyddiedig 19 Mawrth fod yr *Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol*, dan arweiniad Mel Evans, wedi cael ei gyhoeddi a'i fod yn destun cyfnod o ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol. Mae'n rhoi trosolwg clir o'r materion sy'n effeithio ar ddyfodol y gweithlu meddygon teulu yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio ochr yn ochr â Deoniaeth Cymru ac eraill i weld lle byddai targedu cyfnodau hyfforddi a datblygu ychwanegol yn helpu'r sefyllfa bresennol.

In gywir,
Mark

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services